

Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith deulu breifat

Ymateb y Llywodraeth

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ym mis Ionawr 2024

[leave this page blank – back of cover]



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith deulu breifat

Ymateb y Llywodraeth ar ddatrys anghydfodau cyfraith
deulu breifat yn gynharach drwy gyfryngu teuluol

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn <https://consult.justice.gov.uk/>

[leave this page blank – back of title page]

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	4
Cwynion neu sylwadau	4
Rhagair	5
Cefndir	6
Crynodeb o'r ymatebion	8
Ymateb y Llywodraeth	10
Cefnogi teuluoedd pan fydd anghydfod yn codi	11
Cefnogi teuluoedd sy'n ystyried gwneud cais i'r llys	15
Cryfhau Datrys Anghydfodau	19
Gwella profiad y llys i'r rheini sydd angen bod yn bresennol	22
Casgliadau a'r camau nesaf	25
Ymatebion i gwestiynau penodol	26
Asesiad o'r Effaith, Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg	42
Asesiad o'r Effaith	42
Cydraddoldebau	42
Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg	44
Egwyddorion ymgynghori	46
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	47

[leave this page blank – back of contents page]

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r ymateb ôl-ymgyngori i'r papur ymgynghori: Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith deulu breifat.

Bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- cefndir y papur ymgynghori
- crynodeb o'r ymatebion i'r papur ymgynghori
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â'r Tîm Datrys Anghydfodau Cynnar yn y cyfeiriad isod:

Family Justice Policy Team
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

E-bost: privatefamilylawconsultation@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan privatefamilylawconsultation@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Rhagair

Nid yw'r broses o deuluoedd yn gwahanu byth yn syml, ac yn aml mae'r profiad yn achosi straen – yn enwedig pan fydd plant yn rhan o'r broses. Mae llawer o deuluoedd yn ei chael yn anodd cytuno ar y camau nesaf ar gyfer eu plant, o faint o amser y dylent ei dreulio gyda phob rhiant, i drefniadau ariannol a chynhaliaeth plant.

Er bod y rhan fwyaf o deuluoedd yn gallu datrys eu problemau rhyngddynt eu hunain heb orfod mynd i'r llys, mae gormod yn dal i anghytuno – daeth dros 60,000 o achosion plant cyfraith breifat ac achosion cyllid a oedd yn cael eu herio gerbron y llysoedd yn 2022 yn unig. Mae teuluoedd yn wynebu system gyfiawnder a all, ar adegau, atgyfnerthu'r gwrthdaro hwnnw, gan wthio rhieni yn erbyn ei gilydd i 'ennill' brwydr gyfreithiol ddiangen a dinistriol. Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod y gwahaniadau hirfaith hyn yn arbennig o niweidiol i blant, a gallant effeithio arnynt am weddill eu bywydau.

Rydym yn benderfynol i newid hyn. Felly, ym mis Mawrth y llynedd, fe wnaethom ymgynghori ynghylch sut y gall y system gyfiawnder gefnogi teuluoedd yn well i ddatrys eu problemau'n gynharach a'r tu allan i'r llys, lle mae'n briodol ac yn ddiogel gwneud hynny. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu safbwyntiau gyda ni, ac rydym wedi'u hystyried yn ofalus.

Barn ysgubol yr ymatebwyr oedd bod diffyg gwybodaeth ac arweiniad clir yn golygu bod cyfleoedd yn cael eu colli i ddatrys trefniadau ar gyfer plant yn gynharach. Mae llawer o gyplau'n edrych ar y llysoedd fel y pwynt cyswllt cyntaf pan allai dewisiadau eraill fel cyfryngu neu gyngor cyfreithiol cynnar osgoi chwerwder a chostau diangen.

Mae'r ymateb hwn yn cynnwys pecyn uchelgeisiol o ddiwygiadau a fydd yn rhoi datrys gwrthdaro, a lles plant, yn gyntaf ar bob cam o wahanu. Rydym ni eisiau i bob teulu allu cael gafael ar yr wybodaeth iawn ar yr adeg iawn, er mwyn iddyn nhw ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael iddyn nhw.

Bydd ein mesurau'n helpu rhieni i ddod i gytundeb naill ai ar eu pen eu hunain, gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol, fel cyfryngwyr neu gyfreithwyr, neu drwy wasanaeth llys teulu sy'n ymroddedig i leihau gwrthdaro.

Yn ganolog i hyn mae cynllun peilot cyngor cyfreithiol newydd, a fydd yn profi pa mor effeithiol yw cyngor cyfreithiol cynnar o ran helpu rhieni i ddod i gytundeb yn gynharach.

Credwn y bydd darparu cyngor a ariennir gan y llywodraeth, gan weithiwr cyfreithiol proffesiynol, i bobl a allai fel arall wneud cais i'r llys, yn eu helpu i wneud y dewisiadau iawn ar gyfer eu teulu, boed hynny drwy wybodaeth am ffyrdd o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys, neu arweiniad ar sut i lywio drwy broses y llys, mewn achosion ble mai dyna'r datrysiad iawn i'r teulu hwnnw.

Bydd gwell gwybodaeth i deuluoedd yn nodi canllawiau ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt, gan eu cyfeirio'n briodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu adnodd ar-lein newydd ar gyfer

rhieni, gan ddod â gwybodaeth glir o ansawdd uchel at ei gilydd i'w cefnogi i gymryd eu camau cyntaf tuag at wahanu cyfeillgar.

Ar gyfer cyplau sy'n mynd i'r llys, byddwn yn ehangu ein cynllun Pathfinder chwyldroadol ar gyfer llysoedd teulu i dde-ddwyrain Cymru a Birmingham eleni. Yn dilyn hynny, bwriadwn ei ymestyn i bob llys yng Nghymru a Lloegr. Mae lleihau gwrthdaro er lles gorau plant wrth wraidd y dull llai gwrthwynebus, mwy ymchwiliol hwn o ymdrin ag achosion cyfraith deulu breifat, sy'n cryfhau lleisiau plant yn y broses ac yn rhoi mwy o gefnogaeth i'r rhieni sydd ei angen fwyaf.

Os oes awydd i ddod i gytundeb ar y cyd, gall cyfryngu fod yn llwybr llwyddiannus iawn tuag at ddatrys anghydfodau i lawer o deuluoedd. Hyd at fis Rhagfyr 2023, mae'r cynllun talebau cyfryngu wedi helpu dros 24,000 o deuluoedd i gyrchu gwasanaethau cyfryngu a cheisio datrys eu problemau heb orfod mynd i'r llys. Byddwn yn parhau i gefnogi'r cynllun, gan fuddsoddi hyd at £23.6 miliwn erbyn mis Mawrth 2025.

O ystyried y manteision clir, rydym hefyd am annog mwy o ddefnydd o gyfryngu sy'n cynnwys plant, lle bo hynny'n briodol, fel bod eu safbwyntiau a'u dymuniadau'n cael eu clywed wrth i'w rhieni ddod i gytundeb. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn ei gwneud yn haws i gyfryngwyr wneud cais am archwiliadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er mwyn iddynt allu gweithio gyda phlant.

Mae'r rhain yn ddiwygiadau pwysig a fydd yn newid ein system cyfiawnder teuluol er gwell. Dyma'r peth iawn i blant a'u teuluoedd, fel nad ydyn nhw'n dioddef tor-calon gwahaniad hirfaith. A dyma'r peth iawn i'n llysoedd, gan osgoi ymgyfreitha diangen a rhyddhau adnoddau ar gyfer y rheini sydd angen mewnbwn a gwarchodaeth y llys fwyaf.

Mae'r Llywodraeth hon am i bob teulu allu datrys materion sy'n ymwneud â gwahanu cyn gynted â phosibl, er budd pawb dan sylw. Bydd ein mesurau'n helpu i gyflawni hyn, gan sicrhau bod lles plant wrth galon y system, ble y dylai fod.

Y Gwir Anrhydeddus Alex Chalk CB AS

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith deulu breifat' ar 15 Mawrth 2023. Roedd yn gwahodd ymatebion ar gynigion i annog datrys anghydfodau teuluol preifat yn gynharach.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynglŷn â nifer o feysydd penodol. Roedd y prif gynigion yn yr ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:

- Cefnogi rhieni / gofalwyr i ddatrys eu trefniadau plant ac ariannol heb gyfranogiad y llys (e.e. drwy raglenni magu plant ar y cyd cyn mynd i'r llys);
- Cyflwyno gofyniad, mewn achosion priodol, i wneud ymdrech resymol i gyfryngu cyn gwneud cais i'r llys; ac
- Atebolrwydd a defnyddio gorchmynion costau (cyfarwyddyd gan y llys i un parti dalu rhan neu'r cyfan o gostau cyfreithiol y parti arall).

Ategwyd yr ymgynghoriad gan gyfres o ddiwyddiadau bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid â diddordeb. Roedd y digwyddiadau bwrdd crwn yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Cyfryngu a dulliau eraill o ddatrys anghydfodau;
- Cam-drin domestig;
- Cymorth cyn mynd i'r llys.

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu uniongyrchol yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Cyngor Cyfryngu Teuluol a'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 15 Mehefin. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn destun sesiwn dystiolaeth lafar a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar ddydd Llun 19 Mehefin, a oedd wedyn yn darparu ymateb ysgrifenedig i gynigion yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf. Ystyriwyd yr ymateb hwn fel rhan o'n dadansoddiad o ymatebion.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gawsom ac yn darparu cynlluniau'r Llywodraeth i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n gwahanu i'w helpu i ddatrys eu hanghydfodau yn gynharach.

Nid yw Asesiad Effaith y cam ymgynghori wedi cael ei ddiwygio.

Bydd papur ymateb Saesneg yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Darperir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 281 o ymatebion i'r papur ymgynghori. Mae'r rhain wedi'u rhannu fesul sector yn y tabl isod, gyda'r cafeat bod yr ymatebion yn cynnwys cymysgedd o ymatebion personol a sefydliadol. O ganlyniad, mae nifer y bobl sy'n cael eu cynrychioli gan rai o'r ymatebion hyn yn llawer mwy na 281.

	Nifer yr ymatebion	Canran
Cyfryngwyr	75	27%
Gweithwyr proffesiynol yn y sector cyngor neu gymorth	63	22%
Asiantaethau ac Ymarferwyr Cyfreithiol	87	31%
Aelodau o'r Cyhoedd	42	15%
Academyddion a chyrrff ymchwil	8	3%

Cafodd yr ymatebion hyn eu dadansoddi gyda'r bwriad o fesur lefelau cefnogaeth a/neu wrthwynebiad i'r cynigion, casglu tystiolaeth, a helpu i lywio datblygiad polisi'r llywodraeth. Mae rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer diwygio cyfraith deulu breifat, a sut mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dylanwadu arnynt, ar gael ar dudalen 5.

Mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd cefnogaeth eang i brif nod yr ymgynghoriad, sef helpu mwy o bobl i setlo eu hanghydfodau cyfraith deulu breifat yn gynharach ac i ffwrdd o'r llys, lle mae'n ddiogel gwneud hynny.

Clywsom safbwyntiau gwahanol ar y ffordd orau o gyflawni'r nod allweddol hwn. Roedd cefnogaeth eang i ddarparu gwybodaeth yn gynharach a defnyddio rhaglenni datrys anghydfodau a magu plant y tu allan i'r llys, yn ddiogel ac yn briodol, i gefnogi teuluoedd i ddatrys eu hanghydfodau. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau cymysg ynghylch cyflwyno gofyniad i gynnal unrhyw un math o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys. Roedd consensws y dylai cefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a chlywed llais y plentyn fod yn ystyriaethau canolog mewn unrhyw gynigion newydd. Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau hefyd ynghylch sut y gellid gorfodi unrhyw gynigion newydd. Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder ynghylch y potensial i gynyddu'r defnydd o orchmynion costau mewn achosion trefniadau plant yn y llys, tra teimlai eraill fod gorchmynion costau posibl yn fesur

angenrheidiol i sicrhau bod pob parti wir yn ceisio dod i gytundeb er budd gorau'r plant dan sylw.

Yn ogystal â'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a gawsom, roeddem wedi ymgysylltu â grŵp eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn cyfiawnder teuluol i ehangu ein sylfaen dystiolaeth a chael rhagor o wybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys y digwyddiadau bwrdd crwn, yn ogystal â chyfres o gyfarfodydd grŵp ffocws, gan gynnwys gydag aelodau o'r farnwriaeth, cyfryngwyr a'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc.

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd drwy ein rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael eu hymgorffori yn yr ymatebion i gwestiynau unigol a nodir isod ar dudalen 25.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym ni'n gwybod bod gwrthdaro tymor hir rhwng rhieni sy'n gwahanu yn niweidiol i lesiant plant, yn y tymor byr a'r tymor hir.¹ Mae cysylltiad rhwng dod i gysylltiad â gwrthdaro rhwng rhieni a chyfraddau uwch o orbryder, ymddygiad ymosodol ac iselder, yn ogystal ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/troseddoldeb, perfformiad academaidd gwaeth a chamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn effeithio ar y gymdeithas ehangach, gyda goblygiadau ar draws ieuchyd, addysg, cyflogaeth, yn ogystal â'r systemau cyfiawnder troseddol a theuluol.² Roedd consensws yn yr ymatebion a gawsom y gallai rhoi cymorth a gwybodaeth i rieni/gofalwyr yn gynharach eu helpu i ddatrys eu problemau'n gynt a'r tu allan i'r llys, lle mae'n ddiogel gwneud hynny.

Er bod y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn datrys eu trefniadau plant heb ddod i'r llys, yn 2022 dechreuwyd 52,219 o achosion trefniadau plant newydd. Cafwyd 39,423 o geisiadau am orchmynion rhwymedi ariannol, gydag 11,306 o'r ceisiadau hyn yn cael eu herio. Mae llawer o deuluoedd sy'n dod i'r llys i wneud trefniadau plant yn dychwelyd i'r llys i wneud trefniadau pellach neu oherwydd nad yw'r trefniant blaenorol yn gweithio. Mae un astudiaeth o 2016/17 yn awgrymu bod oddeutu chwarter y teuluoedd sydd â gorchymyn trefniadau plant wedi dychwelyd i'r llys teulu.³ Gwnaed 63% o geisiadau a ddychwelwyd o fewn dwy flynedd yn unig i'r un blaenorol.⁴ Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i leihau'r cyfnod hwn er mwyn helpu teuluoedd i gael sicrwydd ynghylch eu trefniadau'n gyflymach a chaniatáu iddynt symud ymlaen â'u bywydau gyda sicrwydd.

Roedd yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad yn cadarnhau bod cefnogaeth ar gael ar draws y system cyfiawnder teuluol, gan gynnwys cyfryngwyr, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, sefydliadau elusennol ac eraill, i'n nod o helpu teuluoedd i ddod i gytundeb yn gynharach a cheisio lleihau gwrthdaro ar bob cam o unrhyw anghydfod.

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol mai dim ond drwy gydweithio effeithiol rhwng yr holl sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd sy'n gwahanu y cyflawnir y nod hwn. Nid yw'r llys teulu yn gweithredu ar ei ben ei hun ac rydym wedi ymrwymo i sefydlu cytundeb traws-system i sicrhau gwell canlyniadau i deuluoedd, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

¹ <https://www.eif.org.uk/report/what-works-to-enhance-interparental-relationships-and-improve-outcomes-for-children>

² <https://www.eif.org.uk/report/what-works-to-enhance-interparental-relationships-and-improve-outcomes-for-children>

³ O'r 40,599 o achosion cyfraith breifat yr oedd Cafcass yn gweithio arnynt yn 2016-17, dychwelodd 12,376 i'r llys.

⁴ Halliday et al. (2017) Page 8, Private law cases that return to court: a Cafcass study [private_law_cases_that_return_to_court_-_cafcass_research_november_2017.pdf](#). Specific focus looking at the oldest child on a child's case.

Rydym wedi myfyrio'n ofalus ar adborth gan bartneriaid system ar y ffordd orau o gyflawni hyn, ac yn yr ymateb hwn rydym wedi nodi ein cynigion i sicrhau newid systematig.

Mae'r papur hwn yn cynnwys pecyn sylweddol o fesurau newydd a fydd yn ein helpu i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi ar *bob* cam o'r daith tuag at ddod i gytundeb. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwell gwybodaeth i deuluoedd pan fydd mater yn datblygu gyntaf i helpu i ddarparu arweiniad cynnar ynghylch pa opsiynau sydd ar gael a chyfeirio at gymorth angenrheidiol;
- Cymorth ac arweiniad i'r rheini sy'n ystyried a allai fod angen achos llys, gan gynnwys darparu cyngor cyfreithiol cynnar, cynyddu mynediad at raglenni magu plant ac annog datrys anghydfodau lle bo hynny'n briodol; a
- Diwygio'r system cyfraith deulu breifat ar gyfer y rheini sydd angen mynd i'r llys, fel ei bod yn fwy ymchwilol ac yn llai gwrthwynebus, ac yn rhoi llais y plentyn wrth galon yr achos a darparu cymorth ychwanegol i'r rhieni / gofalmwyr hynny sydd ei angen fwyaf.

Yn ogystal, mae nifer o gynigion wedi'u nodi yn yr ymateb hwn sy'n cefnogi'r rheini sydd â phroblemau ariannol i'w datrys wrth ysgaru neu ddi-ddymu, yn enwedig ein hymdrechion i annog cyplau sy'n gwahanu i ddod i gytundebau'n gynharach y tu allan i'r llys cyn ceisio cymeradwyaeth y llys i orchymyn cydsynio.

Ar wahân, mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o gyfraith rhwymedïau ariannol ar ysgariad (hynny yw, y gyfraith sy'n ymwneud â sut mae materion ariannol yn cael eu datrys ar ôl i briodas chwalu). Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried a yw'r gyfraith yn dal i weithio yn y ffordd decaf i gefnogi cyplau sy'n gwahanu ac yn osgoi gwrthdaro diangen. Mae'r adolygiad yn adeiladu ar ddiwygiad nodedig y Llywodraeth i gyfraith ysgariad, a chyflwyno ysgariad heb fai sydd wedi lleihau'r gwrthdaro rhwng cyplau sy'n gwahanu. Bydd Comisiwn y Gyfraith yn cwblhau cam cyntaf yr adolygiad erbyn mis Medi 2024, ac ar ôl hynny bydd y Llywodraeth yn ystyried yn ofalus unrhyw gamau nesaf.

Cefnogi teuluoedd pan fydd anghydfod yn codi

Nid oes unrhyw un yn gwneud cais i'r llys teulu oni bai eu bod yn teimlo bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn yn bendant bod diffyg gwybodaeth a chymorth pan fydd teuluoedd yn gwahanu, neu pan fydd anghydfod yn codi, yn golygu y gall llawer o anghydfodau waethygu a bod pobl yn gwneud cais i'r llys heb ddealltwriaeth lawn o'r hyn y bydd proses y llys yn ei olygu, na pha ddewisiadau eraill a allai fod ar gael i ddatrys anghytundebau. Yma, rydym yn nodi beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i helpu teuluoedd i gael yr wybodaeth iawn ar yr adeg iawn.

Cymorth a Gwybodaeth Ar-lein

Byddwn yn datblygu adnodd ar-lein newydd ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n dod â gwybodaeth awdurdodol at ei gilydd i'w cefnogi pan fydd anghydfod yn codi. Ein huchelgais yw y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei llywio gan eu hamgylchiadau unigol a bydd yn ei gwneud yn haws i rieni/gofalwyr nodi a chael mynediad at wasanaethau cymorth.

Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac adborth o ddigwyddiadau bwrdd crwn wrthym fod cael ffynhonnell o wybodaeth glir, ddibynadwy a hygyrch yn hanfodol ar gyfer teuluoedd sy'n gwahanu. Er bod gwybodaeth ar gael ar-lein, gan gynnwys adnoddau'r Llywodraeth ar wneud trefniadau ar gyfer plant, gwefan Cafcass a chanllawiau AdviceNow, rydym yn deall bod angen i'r ffynonellau cyngor dibynadwy hyn fod yn fwy hygyrch a sefyll allan o'r amrywiaeth o gyngor sy'n gwrthdaro sydd ar gael o wahanol ffynonellau.

Clywsom y gallai rhieni/gofalwyr/cyplau sy'n gwahanu golli cyfleoedd i ddatrys eu trefniadau ar gyfer plant ac anghydfodau ariannol yn gynharach, a mynd i'r llys fel cam cyntaf, oherwydd diffyg gwybodaeth glir am ddewisiadau amgen, rôl y llys a'r hyn na fydd y llys yn ei wneud. Dywedodd ymatebwyr wrthym fod y swm mawr o wybodaeth sydd ar gael ar-lein yn gallu bod yn ddryslyd, gyda llawer o deuluoedd yn ansicr ynghylch sut i wneud eu trefniadau ariannol a'u trefniadau ar gyfer plant, a datrys unrhyw anghydfodau y tu allan i'r llys. Clywsom y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael mewn un lle dibynadwy, ac yn ymdrin ag ystod eang o opsiynau ar gyfer datrys anghydfodau.

Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom ddechrau ymchwil defnyddwyr i nodi'r heriau penodol roedd rhieni/gofalwyr yn eu hwynebu o ran cael gafael ar wybodaeth gywir a dibynadwy, pryd oedd y pwynt mwyaf priodol i gael yr wybodaeth honno, a sut i ddod o hyd i wybodaeth a oedd yn berthnasol i'w hanghenion unigol.

Gan adeiladu ar yr ymchwil defnyddwyr, rydym bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu prototeipiau ar gyfer 'llwybr tywysedig' a fydd yn helpu pobl i ddod o hyd i'r opsiynau mwyaf priodol iddynt ddatrys anghydfodau ynghylch eu plant a'u trefniadau ariannol. Agwedd allweddol ar y gwaith hwn fydd profi gyda phobl a allai ddefnyddio'r gwasanaeth a chasglu eu hadborth. Byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau a fyddai'n caniatáu i ddefnyddwyr ddewis cyfryngwr ar y cyd sydd wedi'i achredu gan y Cyngor Cyfryngu Teuluol, gan ganiatáu i'r ddau barti gytuno i'r penderfyniad a chreu mwy o ymddiriedaeth yn y broses.

Ar ben hynny, **erbyn mis Mawrth 2024, byddwn yn cwblhau adolygiad llawn o'r tudalennau perthnasol ar GOV.UK a byddwn yn cynnwys gwybodaeth fanylach am fathau eraill o ddatrys anghydfodau**, yn ogystal â chyfryngu. Byddwn yn sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o amrywiaeth ehangach o ffyrdd o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys a byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau i gryfhau'r ffordd y mae gwybodaeth yn ymddangos yng nghanlyniadau peiriannau chwilio.

Gwyddom fod llawer o bobl yn defnyddio adnoddau a ddarperir gan sefydliadau trydydd sector, a **byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill i gyfeirio at gymorth ac arweiniad perthnasol, gan sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r amrywiaeth o wasanaethau y gallant eu defnyddio.** Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth a chyngor i ddioddefwyr cam-drin domestig ac adnoddau i helpu i gefnogi plant a sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu clywed.

Byddwn hefyd yn **adolygu ein ffurflenni llys presennol erbyn mis Ebrill 2024 i sicrhau bod unrhyw un sy'n gwneud cais i'r llys teulu mewn perthynas â phlant neu faterion ariannol yn cael yr ystod lawn o opsiynau ar gyfer datrys anghydfodau y tu allan i'r llys wrth iddynt gwblhau eu cais.**

Gwybodaeth a chymorth all-lein

Nid yw pawb yn gallu cael gafael ar wybodaeth ar-lein. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, ac rydym yn cytuno bod yn rhaid i bobl heb gysylltedd rhyngrwyd, neu'r rheini sydd fel arall yn methu neu'n dewis peidio â chael gafael ar gymorth drwy'r rhyngrwyd, gael cymorth i gael gafael ar yr wybodaeth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

O fis Mehefin 2024 ymlaen, byddwn yn sicrhau bod canllawiau'n cael eu darparu i bob teulu sydd ag anghydfod ac sydd wedi gwneud cais i'r llys. Bydd y canllawiau hyn yn rhoi gwybod iddynt am y cynllun talebau cyfryngu a dulliau eraill o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys. Bydd hefyd yn nodi pa gamau y bydd y llys yn disgwyl iddynt fod wedi'u cymryd i geisio datrys eu problemau cyn y gwrandawriad cyntaf. Bydd hyn yn sicrhau bod y rheini nad ydynt efallai wedi bod yn ymwybodol o'r cynllun talebau drwy gyfeirio ar-lein yn gallu cael gafael arno, a bod teuluoedd sy'n dod i'r llys wedi ymchwilio'n llawn i'r holl ddewisiadau eraill priodol.

Byddwn yn gweithio i ddatblygu a dosbarthu gwybodaeth ac arweiniad drwy sefydliadau sydd â chysylltiad uniongyrchol â theuluoedd nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd. Byddwn yn gweithio gyda Chanolfannau Teulu fel ffynonellau cymorth cymunedol i ddarparu gwybodaeth i bobl a sicrhau nad yw diffyg cysylltedd digidol yn rhwystr rhag cael gafael ar ganllawiau.

Canolfannau Teulu

Mae Canolfannau Teulu yn 'siopau un stop' sy'n ei gwneud hi'n haws i deuluoedd gael gafael ar amrywiaeth o gymorth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys cymorth i rieni sydd wedi gwahanu neu rieni sydd yn gwahanu. Mae dull gweithio'r Canolfannau Teulu yn golygu bod gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn cydweithio'n fwy effeithiol, gan ganolbwyntio ar gefnogi a chryfhau'r perthnasoedd teuluol sy'n ein cludo ni i gyd drwy fywyd.

Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi tua £300 miliwn i alluogi 75 o awdurdodau lleol i greu Canolfannau Teulu, ac i wella gwasanaethau hanfodol i roi'r dechrau gorau

mewn bywyd i bob babi, gan gynnwys cymorth ar gyfer magu plant, iechyd meddwl amenedigol, perthnasoedd rhwng rhieni a babanod, a bwydo babanod. Mae hyn yn adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol y Llywodraeth i hyrwyddo Canolfannau Teulu – gan gynnwys cronfa drawsnewid gwerth £12 miliwn i agor Canolfannau Teulu mewn 13 awdurdod lleol arall yn Lloegr.

Mae'r rhaglen Canolfannau Teulu yn gwneud cynnydd da ac yn cael derbyniad da yn yr ardaloedd lle maen nhw'n gweithredu ar hyn o bryd. Disgwylir i ardaloedd lleol fodloni'r disgwyliadau sylfaenol llawn, fel y nodir yn y Canllaw Rhaglen, erbyn diwedd y cyfnod cyllido (mis Mawrth 2025). Mae hyn yn cynnwys helpu teuluoedd i gael gafael ar gymorth i leihau gwrthdaro rhwng rhieni a gwybodaeth i rieni sy'n gwahanu neu sydd wedi gwahanu.

Rhaglen Lleihau Gwrthdaro rhwng Rhieni

Mae'r Rhaglen Lleihau Gwrthdaro rhwng Rhieni, dan arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn Lloegr i wella bywydau plant drwy fynd i'r afael â gwrthdaro rhwng rhieni. Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd y Llywodraeth werthusiad mawr o effaith ymyriadau gwrthdaro a ddarparwyd drwy'r rhaglen, a oedd yn dangos canlyniadau cadarnhaol sylweddol, gan gynnwys gwelliannau mewn ymddygiad rhieni o amgylch plant a mwy o foddhad â threfniadau yn y ddalfa. Mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i wreiddio'r math hwn o gymorth effeithiol yn eu gwasanaethau i deuluoedd, ac mae wedi sicrhau bod hyd at £21 miliwn ar gael mewn cyllid lleol i gyflawni hyn.

Mae'r DWP hefyd yn rhedeg Cronfa Her gwerth £2 filiwn, sy'n cefnogi prosiectau sy'n amrywio cyrhaeddiad cymorth perthnasoedd ac sy'n cynhyrchu cynnyrch digidol sy'n gallu ymgysylltu â rhieni. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r DWP yn gweithio gyda Foundations i sicrhau bod tystiolaeth ac arferion gorau yn cael eu rhannu. Rydym yn gwybod y gall teuluoedd brofi ystod o broblemau yn aml, ac felly mae Lleihau Gwrthdaro rhwng Rhieni wedi'i gynnwys yn y fframwaith ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Teuluoedd, ac o fewn disgwyliadau'r gwasanaeth ar gyfer y Canolfannau Teulu a'r rhaglen Dechrau Am Oes. Drwy wneud hyn, gall rhieni gael gafael ar gymorth ar gyfer eu perthnasoedd ar yr un pryd â mynd i'r afael â materion eraill, fel tai neu iechyd.

Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant

Gwyddom, pan fydd teuluoedd yn gwahanu, fod nifer o faterion yn aml y mae angen eu datrys ochr yn ochr â'r trefniadau ar gyfer plant, a bod anghytundebau ar y naill law yn gallu ei gwneud yn anoddach i rieni ddatrys y lleill.

Mae'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS) yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi teuluoedd lle nad yw trefniant ariannol preifat yn briodol. Mae'r CMS yn gweithio'n galed i gynyddu cydweithrediad rhwng rhieni sydd wedi gwahanu ac annog rhieni i roi'r gefnogaeth ariannol sydd ei hangen ar eu plant i gael cychwyn da mewn bywyd.

Ym mis Hydref 2023, **cyhoeddodd y Llywodraeth nifer o welliannau i'r Cynllun Cynhaliaeth Plant er mwyn iddo allu cefnogi teuluoedd sydd wedi gwahanu yn well drwy wneud y canlynol:**

- a. Cyflwyno gorchmynion atebolrwydd gweinyddol i gyflymu'n sylweddol yr amser y mae'n ei gymryd i'r Cynllun Cynhaliaeth Plant ddatrys achosion lle nad yw rhieni'n talu. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus i ben ym mis Tachwedd 2023, a bwriedir gwneud newidiadau yn ystod Haf 2024;
- b. Dileu'r ffi ymgeisio o £20 fel nad yw teuluoedd sydd ar yr incwm isaf yn wynebu rhwystr rhag defnyddio'r Cynllun Cynhaliaeth Plant;
- c. Cynnwys mwy o fathau o incwm yn y cyfrifiad cynhaliaeth plant cychwynnol, fel bod yr atebolrwydd yn adlewyrchiad cywir o amgylchiadau ariannol rhiant sy'n talu;
- d. Cyhoeddi ymgynghoriad ar sut y gall y CMS wella'r gwaith o gasglu a throsglwyddo taliadau cynhaliaeth plant.

Beth bynnag fo'r problemau y mae teuluoedd yn eu hwynebu, mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i nodi pryd y mae arnynt angen cefnogaeth a chynghor a mabwysiadu dull cydgysylltiedig o'i ddarparu, yn enwedig i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Cefnogi teuluoedd sy'n ystyried gwneud cais i'r llys

Mae sawl opsiwn ar gael i deuluoedd sydd angen cymorth i ddatrys anghydfod ariannol neu drefniadau ar gyfer plant. Gwyddom nad yw rhai teuluoedd yn ymwybodol o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt, a gall hyn arwain at ymwreiddio'r gwrthdaro. Os na ellir datrys anghydfod yn gynnar drwy roi gwybodaeth iddynt ar yr adeg iawn, byddwn yn darparu nifer o ymyriadau pwrpasol i helpu teuluoedd. Yma, rydym yn nodi beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i helpu teuluoedd i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg iawn i sicrhau mai'r llys yw'r dewis olaf o hyd i'r rheini sydd wir ei angen.

Cyngor Cyfreithiol

Byddwn yn lansio cynllun peilot newydd ar gyngor cyfreithiol, wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer rhieni / gofalwyr sy'n wynebu heriau wrth gytuno ar drefniadau plant. Bydd y cynllun peilot yn ceisio dangos manteision cyngor cyfreithiol o ansawdd uchel i deuluoedd sy'n ceisio datrys eu problemau drwy'r llysoedd a, lle pennir bod angen mynd i'r llys, eu paratoi'n well ar gyfer proses y llys.

Ar hyn o bryd, ceir rhywfaint o gyngor cyfreithiol cynnar i bartïon sy'n ymwneud ag achosion cyfraith deulu breifat. Mae hyn yn cynnwys cymorth cyfreithiol a chymorth teuluol i'r rheini sy'n cael eu cam-drin yn y cartref neu sydd mewn perygl o hynny, pobl o dan 18 oed, ac achosion o herwydio rhyngwladol neu ddomestig. Ar ben hynny, mae cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer cyfryngu mewn anghydfodau teuluol, gan gynnwys Cyfarfod

Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu Teuluol (MIAM), cyfryngu a 'Help gyda Chyfyngu' (HwM), er bod y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth olaf hwn yn isel iawn.

Er na wnaethom ofyn cwestiwn penodol am rôl cyngor cyfreithiol, roedd llawer o'r ymatebwyr i'n hymgyngoriad o'r farn bod diffyg cyngor cyfreithiol cyfraith teulu rhad ac am ddim, sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, yn rhwystr i ddatrys anghydfodau'n gynnar. Dywedodd ymatebwyr wrthym y byddai darparu mynediad wedi'i ariannu at gyngor cyfreithiol cynnar yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i rieni / gofalwyr, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu hanghydfod, ac o bosibl yn arwain at ganlyniadau gwell i rieni / gofalwyr a'u plant. Er na chawsom dystiolaeth sylweddol yn cefnogi'r hawliad hwn, tynnodd Cymdeithas y Gyfraith sylw at y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i gyfryngu a ariennir yn gyhoeddus ar ôl cyflwyno'r Bil Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) yn 2010, a oedd yn diddymu'r rhan fwyaf o gyngor cyfreithiol cynnar o gwmpas cymorth cyfreithiol.

Rydym yn cydnabod manteision posibl cyngor cyfreithiol cynnar o ran cefnogi teuluoedd i ddatrys eu hanghydfodau, gan nodi'r diffyg data digonol i brofi pa effaith y gall cyngor cynnar ei chael ar deuluoedd. Pe bai'n cael ei ddarparu ar y cyd â gwell canllawiau a gwybodaeth gyffredinol, gellid teilwra cyngor cyfreithiol cynnar i amgylchiadau unigol. Gallai hyn gynnwys cynnal asesiad risg i ganfod pryderon neu faterion diogelu, cynnig gwybodaeth am wahanol opsiynau ar gyfer datrys anghydfodau, esbonio proses y llys, a darparu cyngor ar ddatrysiadau posibl sydd wedi'u teilwra i'w hamgylchiadau penodol.

Mae cyngor cyfreithiol cynnar hefyd yn rhoi dewis i bobl o ran sut y maent yn ceisio datrys eu problemau. Drwy gynnig cyngor cyfreithiol, yn hytrach na gorfodi dull penodol o ddatrys anghydfod i bawb, rhoddir rhyddid i bobl ddewis y math o broses datrys anghydfod sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

Gwyddom fod llawer o unigolion yn talu am eu cyngor cyfreithiol eu hunain, ac mae llawer o gyfreithwyr yn darparu ymgynghoriadau cychwynnol rhad ac am ddim. Ceir cynlluniau sy'n bodoli eisoes hefyd, megis y cynllun Cyngor Fforddiadwy, sy'n cynnig cyngor am gost sefydlog neu gost is i unigolion sy'n delio â materion cyfraith deulu breifat. Fodd bynnag, ein diddordeb yw gwerthuso effaith cyngor cyfreithiol cynnar a ariennir gan y llywodraeth. Drwy'r cynllun peilot hwn, ein nod yw asesu'r manteision posibl, o ran hwyluso datrys anghydfodau'n gynharach a hwyluso datrysiad yn y llys lle bo angen.

Rydym yn bwriadu lansio'r cynllun peilot mewn rhanbarthau penodol yng Nghymru a Lloegr erbyn haf 2024. Ein nod yw cydweithio'n agos â rhanddeiliaid yn y sectorau cyfreithiol a chyngor i ddylunio cynllun peilot effeithiol sy'n helpu teuluoedd sy'n cymryd rhan i ddatrys eu hanghydfodau, ac sy'n ein galluogi i gasglu tystiolaeth hanfodol am rôl cyngor cyfreithiol wrth ddatrys anghydfodau.

Rhaglenni Magu Plant

Gwyddom y gall Rhaglenni Magu Plant helpu i wella canlyniadau i deuluoedd. Rydym ni eisiau rhoi dewis i rieni o ran sut maen nhw'n dod i gytundeb ynghylch eu trefniadau plant,

felly nid ydym yn bwrw ymlaen â chynigion a fyddai'n mynnu eu bod yn mynychu rhaglen magu plant cyn y gellid gwneud cais i'r llys.

Fodd bynnag, rydym am i fwy o bobl elwa o raglenni magu plant gan ein bod yn gwybod y gallant helpu rhieni / gofalwyr sy'n gwahanu gydag adnoddau sy'n helpu i ffocysu ar fuddiannau gorau eu plant a dod i gytundeb cynharach. **Byddwn yn gweithio gyda Cafcass a Cafcass Cymru i helpu mwy o deuluoedd i ymgymryd â rhaglenni magu plant yn y llys yn gynharach yn y broses, yn hytrach nag ar ôl cael gorchymyn llys, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn gweithio i wneud rhaglenni magu plant cyn-llys yn norm i deuluoedd sy'n ceisio dod i gytundeb ynghylch trefniadau plant.**

Roedd cefnogaeth eang yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cynnig i annog mwy o rieni i fynychu rhaglenni magu plant yn gynharach yn ystod y gwahanu neu'r anghydfod, ac yn enwedig cyn i'r llys wneud gorchymyn terfynol.

Roedd cefnogaeth gref i'r rhaglenni hyn fod ar gael cyn y llys, ond roedd safbwyntiau cymysg ynghylch gwneud presenoldeb yn y rhaglenni hyn yn ofyniad gorfodol. Ochr yn ochr â'r rhaglenni magu plant llwyddiannus a gynigir gan Cafcass a Cafcass Cymru, **byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i adeiladu'r sector rhaglenni magu plant i sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn gallu cael gafael ar ystod ehangach o raglenni magu plant o ansawdd uchel, sy'n addas ar gyfer rhieni / gofalwyr mewn gwahanol amgylchiadau.**

Ym mis Ebrill 2023, lansiodd Cafcass ei gwrs *Planning Together for Children* yn Lloegr, gan ddisodli'r *Separating Parents Information Programme* (SPIP) cynharach. Mae *Planning Together for Children* yn gwrs sy'n cefnogi rhieni a gofalwyr i feddwl am anghenion eu plant yn gyntaf pan fyddant yn penderfynu sut y gallant rianta gyda'i gilydd, gan eu bod yn gwahanu a / neu eu bod yn byw ar wahân. Mae'n cefnogi rhieni a gofalwyr i feddwl yn ofalus am yr hyn sydd er budd gorau'r plant ac i wneud eu gorau i weithio gyda'i gilydd i amddiffyn plant rhag rhai o effeithiau niweidiol gwrthdaro rhwng rhieni.

Yn y chwe mis cyntaf ers lansio'r cwrs newydd, mae 12,874 o atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud. Mae 89% (5,844) o rieni sy'n cwblhau'r cwrs yn dweud bod ganddynt ddealltwriaeth gliriach o effaith gwrthdaro ar blant ac mae 86% (5,608) yn fodlon iawn â chynnwys y cwrs a'r cymorth a gynigir.

Yng Nghymru, mae rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant (WT4C) yn cael ei chomisiynu gan Cafcass Cymru i gefnogi teuluoedd sy'n ymwneud ag achosion llys sy'n ymwneud â phlant i gyfathrebu'n well a gweithio gyda'i gilydd er budd gorau eu plant. Darperir y cwrs rhyngweithiol pedair awr o hyd ar-lein, ond gellir ei gyflwyno wyneb yn wyneb os oes angen. Nod y cwrs yw helpu aelodau'r teulu i ddeall beth sydd ei angen fwyaf ar eu plant pan fyddant yn gwneud trefniadau ynghylch treulio amser gyda rhieni a phobl bwysig eraill yn eu teulu. Mae'n addas dim ond lle nad oes unrhyw risgiau diogelu a lle nad oes pryderon am gam-drin domestig a mathau eraill o niwed.

Yn ystod y 12 mis rhwng 1 Tachwedd 2022 a 31 Hydref 2023, gwnaeth Cafcass Cymru 787 o atgyfeiriadau i'w darparwyr cyrsiau. O blith 151 o ffurflenni adborth a gafodd eu llenwi gan bobl a gymerodd ran ers mis Tachwedd 2022, dywedodd 93% eu bod yn teimlo bod y rhaglen yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth.

Yn Lloegr, mae atgyfeiriadau cynharach (y rheini sy'n cael eu gwneud gan Gyngorydd Llys Teulu Cafcass cyn y gwrandawriad cyntaf, yn hytrach nag yn ddiweddarach mewn achosion gan farnwr) wedi cynyddu o 2.5% i fwy nag 20% o'r holl atgyfeiriadau ers mis Mehefin 2021. Yng Nghymru, mae 126 (19%) o atgyfeiriadau i WT4C wedi cael eu cyfeirio'n gynnar gan Gyngorydd Llys Teulu. Yng Nghymru, mae 126 (19%) o atgyfeiriadau i WT4C wedi bod yn atgyfeiriadau cynnar.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ystod o raglenni cymorth cynnar i deuluoedd a rhaglenni magu plant cyffredinol ac wedi'u targedu. Gall hyn gynnwys cymorth i deuluoedd sydd wedi gwahanu, sydd yn gwahanu neu sy'n profi gwrthdaro rhwng rhieni, yn ogystal â chynnig cymorth ymarferol ac emosiynol yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc. Y bwriad yw helpu teuluoedd i weithio gyda'i gilydd i leihau gwrthdaro yn y cartref a'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â gwrthdaro teuluol.

Gellir cael gafael ar raglenni o'r fath drwy awdurdodau lleol, trwy fentrau fel Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf a thimau cymorth magu plant eraill.

Elfen ganolog o'r gwaith yn y maes hwn yw'r rhaglen "Magu plant. Rhowch amser iddo", ymgyrch magu plant cadarnhaol Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth arbenigol yn rhad ac am ddim i bob rhiant a gofalwr drwy wefan ddwyieithog bwrpasol, hysbysebion digidol a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Yn fwy penodol, mae'n darparu gwybodaeth ac adnoddau, o dan adran 'Eich Cefnogi Chi' y wefan ar fagu plant ar y cyd a chymorth perthnasoedd, gan gynnwys 'Magu Plant Gyda'ch Gilydd', cefnogi plant drwy wahanu, 'Gofalu amdanoch eich hun a rheoli straen', a 'Gofalu amdanoch chi a'ch teulu', ar gyfer rhieni a neiniau a theidiau sy'n delio ag amgylchiadau anodd.

Cryfhau Datrys Anghydfodau

Roedd y cynigion yn yr ymgynghoriad yn amlinellu gofyniad i bartïon roi cynnig ar gyfryngu cyn gwneud cais i'r llys teulu mewn perthynas â threfniadau plant neu anghydfodau ariannol. Er bod yr ymgynghoriad yn nodi na fyddai'r gofyniad yn berthnasol lle byddai'n anniogel, er enghraifft mewn achosion lle'r oedd cam-drin domestig yn bresennol, roedd llawer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn poeni na fyddai'r esemptiadau arfaethedig yn ddigon i amddiffyn goroeswyr cam-drin domestig yn ddigonol rhag gorfod mynychu cyfryngu pan nad yw'n addas nac yn ddiogel iddynt. Yn ogystal, tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith nad cyfryngu yw'r unig ffordd o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys y gall teuluoedd ei defnyddio i ddatrys eu hanghydfodau, ac er y dangoswyd bod cyfryngu'n

effeithiol, efallai y byddai opsiynau eraill, fel cymrodeddu, negodi gan gyfreithiwr neu ddull 'un cyfreithiwr dau gleient', yn well i rai teuluoedd.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i helpu mwy o deuluoedd i ddeall ac elwa o ddatrys anghydfodau. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig newid y gyfraith i gyflwyno gofyniad ar bartïon i fynychu cyfryngu cyn gwneud cais i'r llys ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu pecyn o fesurau sy'n helpu rhieni / gofalwyr i ddatrys eu problemau ar bob cam o'r broses drwy: ddarparu gwybodaeth wedi'i thargedu'n gynharach cyn i faterion waethygu; darparu cymorth pwrpasol newydd ar gyfer datrys anghydfodau cyn mynd i'r llys; a diwygio'r broses cyfraith deulu breifat i'w gwneud yn llai gwrthwynebus gyda mwy o bwyslais ar lais y plentyn, a mwy o gefnogaeth i bartïon sydd ei angen.

Gwell sgrinio a hyfforddiant ar gam-drin domestig i gyfryngwyr

Rydym yn deall y pryderon y gallai gwneud cyfryngu yn gam cyn-llys gorfodol ar gyfer achosion priodol beryglu rhai unigolion nad ydynt yn sylweddoli'n llawn eu bod wedi profi cam-drin domestig a'u rhoi mewn sefyllfa a allai fod yn amhriodol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Cyfryngu Teuluol (FMC), a nifer o sefydliadau cam-drin domestig blaenllaw i edrych ar sut gallwn ni helpu cyfryngwyr achrededig FMC sy'n cynnal cyfarfodydd MIAM a chyfryngu i wella eu dull o adnabod cam-drin domestig a cham-drin plant a chefnogi dioddefwyr.

Rydym yn awyddus i ganolbwyntio ar sgrinio effeithiol cyn mynd i'r llys ar gyfer cam-drin domestig er mwyn canfod y rheini sydd angen defnyddio'r llysoedd ac a allai fod angen cymorth ychwanegol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cam-drin domestig fel y Comisiynydd Cam-drin Domestig ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

Cyfryngu

Byddwn yn parhau i gefnogi'r Cynllun Talebau Cyfryngu. Erbyn mis Mawrth 2025, byddwn wedi buddsoddi hyd at £23.6m.

Gwyddom fod cyfryngu'n gallu bod yn ffordd lwyddiannus iawn o ddatrys anghydfodau i lawer o deuluoedd. Ym mis Mawrth 2021, fe wnaethom lansio'r cynllun talebau cyfryngu i deuluoedd, sy'n cynnig hyd at £500 i helpu teuluoedd cymwys i gyfryngu materion sy'n ymwneud â'u plant neu eu cyllid a chreu datrysiad sy'n gweithio i bawb, yn hytrach nag un sydd wedi cael ei orfodi gan farnwr. Roedd hyn er mwyn helpu i liniaru'r ôl-groniad o achosion llys teulu a oedd wedi cael ei waethygu gan bandemig COVID-19 a darparu sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd cyfryngu o ran cefnogi teuluoedd i ddatrys eu hanghydfodau.

Hyd at fis Rhagfyr 2023, mae'r cynllun wedi helpu dros 24,000 o deuluoedd i gael gafael ar wasanaeth cyfryngu'n llwyddiannus a cheisio datrys eu problemau heb orfod mynd i'r llys. Mae dadansoddiad o 7,200 o ddefnyddwyr cyntaf y cynllun yn dangos bod 69% wedi

dod i gytundeb llawn neu rannol ac nad oedd angen iddynt fynd i'r llys. Nid yw'r data hwn yn olrhain achosion dros amser a bydd angen astudiaeth bellach i ddeall pa ganran allai droi at y llys yn y dyfodol. Mae arolygon cyfryngwyr yn awgrymu ymhellach na fyddai 51% o'r cyfranogwyr wedi rhoi cynnig ar gyfryngu heb y cymorth ariannol a gynigir gan y cynllun. Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad pellach o ail flwyddyn gweithredu'r cynllun a thu hwnt wrth i ddata ddod ar gael i'w astudio.

Mae'r galw parhaus am y cynllun yn dangos bod proses datrys anghydfodau sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac wedi'i theilwra i anghenion unigolion yn gweithio. **Rydym nawr yn buddsoddi hyd at £23.6m yn y cynllun, a disgwylwn y bydd hynny'n caniatáu iddo barhau hyd at fis Mawrth 2025.** Erbyn hynny, rydym yn disgwyl y bydd tua 44,600 o deuluoedd wedi manteisio ar ein cynnig o gymorth.

Cyfryngu sy'n cynnwys plant

Byddwn yn cefnogi'r defnydd cynyddol o gyfryngu sy'n cynnwys plant drwy sicrhau bod cyfryngwyr yn gallu gwneud cais am archwiliadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod llais y plentyn hefyd yn cael ei glywed yn gryfach mewn prosesau datrys anghydfodau y tu allan i'r llys, yn enwedig wrth i ni geisio cefnogi mwy o deuluoedd i ddatrys eu hanghydfodau fel hyn. Mae cyfryngu sy'n cynnwys plant yn cael ei gynnis gan rai cyfryngwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Maent yn sicrhau yr ymgynghorir â phlant, lle bo hynny'n addas, fel rhan o'r broses gyfryngu, sy'n sicrhau bod y rhieni / gofalwyr sy'n ceisio dod i gytundeb yn ystyried eu safbwyntiau. Mae'r cyfryngwr yn siarad â'r plentyn ac yn ceisio deall ei feddyliau am y sefyllfa, yn gofyn beth yr hoffai ei weld yn digwydd ac yn rhoi cyfle iddo awgrymu ffyrdd o helpu i ddod i gytundeb.

Rydym am gefnogi mwy o gyfryngwyr i gynnig gwasanaeth cyfryngu sy'n cynnwys plant, ac rydym am i fwy o deuluoedd fanteisio ar y gwasanaeth hwn. Un rhwystr i hyn a glywsom mewn ymateb i'n hymgyngoriad oedd nad yw rhai cyfryngwyr wedi gallu gwneud cais am wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), i roi rhywfaint o sicrwydd i deuluoedd eu bod yn ddiogel ac y gellir ymddiried ynddynt i gynnal cyfryngu sy'n cynnwys plant. O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda'r FMC, i ddatblygu canllawiau i gyfryngwyr i'w helpu i gael gafael ar y gwasanaeth gwerthfawr hwn a sicrhau eu bod yn gallu gwneud cais am y gwiriad DBS manylach. Dylai hyn helpu mwy o gyfryngwyr i gynnig y gwasanaeth hwn, a rhoi hyder i deuluoedd ei fod yn broses ddiogel iddynt hwy a'u plant.

Rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd eraill o gefnogi mwy o deuluoedd i gwblhau cyfryngu sy'n cynnwys plant, yn enwedig y teuluoedd hynny sy'n parhau i fanteisio ar y cynllun talebau cyfryngu llwyddiannus.

Newidiadau i reolau'r llys i annog datrys anghydfodau'n gynnar

Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu yn newid y Rheolau Trefniadaeth Teulu i ddileu esemptiadau hen ffasiwn i MIAMs ac i roi mesurau newydd ar waith i annog ystyriaeth lawn o ddewisiadau amgen i'r llys.

Pan fydd teuluoedd yn penderfynu gwneud cais i'r llys, gwyddom y gall mynychu Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu Teuluol (MIAM) cyn-llys, lle mae'n ddiogel ac yn briodol i bobl wneud hynny, roi gwybodaeth hanfodol iddynt am yr opsiynau sydd ar gael iddynt i ddatrys eu hanghydfod yn y ffordd fwyaf effeithiol. Rydym am i fwy o bobl ddod i'r MIAM, oni bai fod esemptiad dilys yn berthnasol.

Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu (FPRC) yw'r corff sy'n llunio'r Rheolau Trefniadaeth Teulu (y Rheolau), sy'n nodi'r ymarfer a'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn achosion teulu. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r FPRC ac wedi nodi sawl cyfle i annog pobl i roi cynnig ar ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys ac annog mwy o bobl i fynychu'r Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu Teuluol (MIAM) cyn-llys drwy newidiadau i'r Rheolau.

Yn gynharach eleni, ymgynghorodd y FPRC ar newidiadau arfaethedig i'r Rheolau, i gefnogi datrys anghydfodau cyfraith deulu breifat yn gynharach. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 25 Mai 2023 a derbyniwyd 38 o ymatebion, gan weithwyr proffesiynol unigol fel cyfryngwyr, cyfreithwyr a barnwyr, a gan sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n gweithio yn y sector cyfiawnder teulu a'r rheini a allai ddefnyddio'r llysoedd teulu. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau fel y Cyngor Cyfryngu Teuluol, JUSTICE a Surviving Economic Abuse. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'n fras yr holl gynigion a gyflwynwyd gan yr FPRC i gryfhau'r Rheolau i gefnogi pobl i ddatrys eu problemau y tu allan i'r llysoedd teulu, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol.

Nod y newidiadau i'r Rheolau:

- a. yw sicrhau bod y gofyniad i fynychu MIAM yn cael ei orfodi'n fwy effeithiol drwy ddod â'r adolygiad o esemptiadau MIAM honedig yn gynharach ym mhroses y llys a cheisio sicrhau bod llysoedd yn gorfodi'r gofyniad MIAM yn fwy llym, gan gynnwys mewn achosion lle'r oedd esemptiad yn ddilys i ddechrau ond nad yw'n ddilys mwyach;
- b. yw cael llai o esemptiadau MIAM, gan ystyried ffyrdd modern o weithio, gan gynnwys y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd MIAM ar-lein;
- c. yw cyflwyno mesurau i sicrhau bod y llys yn annog partïon i geisio datrys eu hanghydfodau drwy fynychu cyfarfod datrys anghydfod os yw'r llys o'r farn ei fod yn addas ar unrhyw adeg yn yr achos; ac
- d. o ran y rheolau ar orchmynion costau mewn achosion rhwymedi ariannol, sicrhau, os yw'r llys o'r farn nad yw parti wedi gwneud ymgais resymol i fynychu cyfarfod datrys anghydfod, er bod y llys yn ystyried bod hynny'n briodol, y gellir

ystyried hyn fel “ymddygiad” wrth benderfynu a ddylid gorchymyn un parti i dalu'r cyfan neu ran o gostau cyfreithiol y llall.

Bydd y newidiadau y cytunwyd arnynt yn dod i rym ar 29 Ebrill 2024.

Gwella profiad y llys i'r rheini sydd angen bod yn bresennol

Yn dilyn cynllun peilot dull ymchwilio cyfraith breifat, Pathfinder, bwriadwn ddiwygio'r weithdrefn a ddilynir mewn achosion cyfraith breifat sy'n ymwneud â phlant yn genedlaethol i'w gwneud yn fwy ymchwiliol, llai gwrthwynebus, i gryfhau llais y plentyn mewn achosion a chynyddu'r gefnogaeth i bartïon sydd ei hangen.

Gan adeiladu ar y cynllun peilot dull ymchwilio cyfraith breifat, Pathfinder, sydd eisoes ar waith yn Dorset a gogledd Cymru, bydd y dull yn cael ei ymestyn i ddeddwyrain Cymru a Birmingham ym mis Ebrill a mis Mehefin 2024 yn y drefn honno ac yna, yn amodol ar ganfyddiadau'r gwerthusiad a'r penderfyniadau yn yr Adolygiad o Wariant nesaf, rydym yn bwriadu cyflwyno'r dull gweithredu newydd ar gyfer pob llys yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd angen cefnogaeth ac ymyrraeth y llys teulu ar lawer o deuluoedd er mwyn dod i benderfyniad diogel a theg er budd gorau'r plant dan sylw. Er bod ymyriad y llys yn angenrheidiol ac yn gywir yn yr achosion hyn, mae'r egwyddor sylfaenol sy'n sail i'n diwygiadau – sef bod gwrthdaro hirdymor rhwng rhieni yn niweidiol i'r plentyn ac y dylid ei osgoi – hefyd yn berthnasol pan fydd achos yn cael ei ystyried gan y llys teulu.

Ar gyfer yr achosion hynny lle mae angen cefnogaeth y system gyfreithiol, rydym yn gwneud diwygiadau sylfaenol i broses y llys ar gyfer achosion trefniadau plant er mwyn lleihau natur wrthwynebus proses y llys, blaenoriaethu llais y plant, gwella profiad dioddefwyr cam-drin domestig a sicrhau y gellir cwblhau achosion yn gyflym er budd gorau'r plant dan sylw.

Ym mis Chwefror 2022, dechreuodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder dreialu dull mwy ymchwiliol a llai gwrthwynebus o ymdrin ag achosion cyfraith breifat sy'n ymwneud â phlant yn Dorset a gogledd Cymru. Fe'u gelwir yn 'llysoedd Pathfinder', ac mae'r dull newydd yn nodi anghenion teuluoedd yn gynharach ac yn gweithio gydag oedolion a phlant, yn ogystal ag asiantaethau allanol fel awdurdodau lleol, yr heddlu ac ysgolion, i ddeall eu hamgylchiadau a'u helpu i ddod i gytundeb a/neu gwblhau achosion heb fod angen nifer o wrandawiadau. Nod cam adolygu, a gynhelir ar ôl i orchymyn gael ei wneud, yw sicrhau bod gorchymynion llys yn diwallu anghenion llesiant y plentyn ac yn helpu i leihau nifer yr achosion sy'n dychwelyd i'r llys.

Mae'r cynllun peilot wedi'i ddylunio i wella'r profiad a'r canlyniadau i blant a rhieni / gofalwyr sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat, ac yn enwedig y rheini a allai fod angen cymorth ychwanegol fel goroeswyr cam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio'n gynharach at Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) lle bo angen. Ar

ddechrau achos, mae'r llys yn ymchwilio'n weithredol i effaith unrhyw gam-drin domestig ar y plentyn a'i lesiant. Yn y cam cynnar hwn, cysylltir â gwasanaethau cymorth cam-drin a chynhelir asesiadau risg Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar Sail Anrhydedd (DASH) lle bo hynny'n briodol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ariannu'r gwasanaethau IDVA hyn yn llawn ar y cam cychwynnol hwn yn ardaloedd y cynlluniau peilot.

Mae'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r cynlluniau peilot yn mynd rhagddo. Mae'r mewnwleidiad cynnar o hyd achosion a lefel y llwyth achosion cyfraith breifat sy'n weddill yn gadarnhaol. Mae'r adborth cychwynnol o'r ardaloedd peilot yn awgrymu bod yr Adroddiad Effaith ar Blant (rhan allweddol o ddull ymchwilio cyfraith breifat Pathfinder) yn helpu i ffocysu'r achos ar anghenion y plentyn, gan ganiatáu i'r llys ganolbwyntio ar y materion craidd ar gyfer y plentyn a'i lesiant, yn hytrach na'r anghydfodau ehangach rhwng y partïon. Mae rhanddeiliaid a phartneriaid y cynllun Pathfinder yn adrodd bod y berthynas agosach ag asiantaethau cam-drin domestig lleol wedi cynyddu nifer y goreswyr sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth.

Yng ngoleuni'r canlyniadau addawol hyn, byddwn yn ymestyn y dull newydd i Gaerdydd a Birmingham ym mis Ebrill a mis Mehefin, ac yn dilyn y gwerthusiad ffurfiol yn ddiweddarach eleni a phenderfyniadau'r Adolygiad o Wariant, rydym yn bwriadu addasu a chyflwyno'r model ledled Cymru a Lloegr.

Ochr yn ochr â'n cynlluniau i gyflwyno'r model Pathfinder, rydym hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau unigol i wella profiad dioddefwyr trais domestig yn y llys teulu. Cafodd y rhain eu hamlinellu'n ddiweddar yn ein hymateb⁵ i adroddiad y Comisiynydd Cam-drin Domestig (y Comisiynydd), 'Cam-drin Domestig a'r Llys Teulu; Cyflawni Newid Diwylliannol',⁶ a gyhoeddwyd ar 9 Tachwedd 2023.

⁵ <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/654b827cb9068c00130e7573/domestic-abuse-commissioners-report-response.pdf>

⁶ <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/654b827cb9068c00130e7573/domestic-abuse-commissioners-report-response.pdf>

Casgliad a'r camau nesaf

Hoffai'r Llywodraeth ddiolch eto i'r holl unigolion a sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad am eu hymgysylltiad a'u cefnogaeth yn helpu teuluoedd i ddatrys eu problemau. Hoffem ddiolch yn arbennig i'r rheini a oedd yn gallu ymuno â'n digwyddiadau ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae eich cyfraniadau wedi helpu i lunio'r rhaglen ddiwygio mewn achosion cyfraith deulu breifat a nodir yn yr ymateb hwn, ac rydym yn hynod ddiolchgar am hynny.

Ein nod nawr yw bwrw ymlaen â'n rhaglen ddiwygio uchelgeisiol a fydd, yn ein barn ni, yn gwella bywydau teuluoedd sydd wedi gwahanu ac sydd yn gwahanu ledled Cymru a Lloegr. Bydd y newidiadau i'r Rheolau yn dod i rym ar 29 Ebrill 2024, a bydd y cynllun peilot Cyngor Cyfreithiol yn dechrau yn ystod haf 2024. Yn ogystal â'r diwygiadau hyn, bydd 2024 yn gweld dechrau cyflwyno'r dull ymchwilio chwyldroadol yn ehangach, sef model llys cyfraith breifat Pathfinder. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i barhau i weithio gyda'n partneriaid ar draws y system cyfiawnder teuluol i wneud y mesurau hyn, ynghyd â'r holl ddiwygiadau eraill sydd ar waith ym maes cyfiawnder teuluol i annog datrys yn gynnar a lleihau gwrthdaro, yn llwyddiant.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cwestiwn 1: Ydych chi o blaid cyflwyno gofyniad gorfodol i rieni sy'n gwahanu (ac eraill fel neiniau a theidiau) gymryd rhan mewn rhaglen magu ar y cyd, os ydyn nhw a'u hamgylchiadau'n cael eu hystyried yn addas ac yn amodol ar yr un esemptiadau â'r rheini ar gyfer y gofyniad am gyfryngu (gweler Pennod 3), cyn iddynt allu gwneud cais i'r llys am orchymyn trefniadau plant neu orchymyn plant arall?

- Ydw

- Nac ydw

- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau dros eich ateb

Roedd adborth o'r digwyddiadau bwrdd crwn yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o rieni a oedd yn mynychu rhaglen *Separating Parents Information Programme* (SPIP) (*Planning Together For Children* erbyn hyn) yn Lloegr, neu raglen Gweithio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant (WT4C) yng Nghymru, wedi nodi profiad cadarnhaol. Roedd elfennau cadarnhaol y SPIP y cyfeiriwyd atynt gan ymatebwyr yn cynnwys: helpu rhieni i ddod o hyd i dir cyffredin a sicrhau bod partion yn ffocysu ar sut mae eu hymddygiad yn effeithio ar eu plant.

Er nad oedd consensws ar hyn, teimlai rhai sefydliadau y byddai presenoldeb cynharach ar raglenni magu plant yn cefnogi rhieni i gydnabod effaith eu gwrthdaro ar eu plant, ac y byddai rhieni wedi ymwreiddio llai yn eu safbwyntiau ac yn fwy parod i fyfyrto ar eu hymddygiad. Roedd Cymdeithas Cyfraith Deulu'r Bar a Cafcass yn cefnogi rhaglenni magu plant a oedd yn digwydd yn gynnar yn y broses er mwyn galluogi rhieni i elwa o well dealltwriaeth o sut i wneud penderfyniadau a oedd yn canolbwyntio ar les gorau eu plant.

Dyweddodd Llywydd yr Is-adran Deulu: *"Byddai mynychu rhaglen magu plant ar y cyd yn ddefnyddiol iawn i'r rhan fwyaf o rieni sy'n gwahanu...Y rhagdybiaeth ddylai fod bod pawb yn mynychu cwrs o'r fath, oni bai fod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny. Mae'n hanfodol bwysig bod presenoldeb yn digwydd yn gynnar cyn i rieni sy'n gwahanu fframio eu hanghydfod fel un sy'n galw am ymglyfreitha."*

Nododd y rheini a oedd yn bresennol fod nifer o wahanol raglenni yn bodoli, nid dim ond y rhai a gomisiynwyd gan Cafcass a Cafcass Cymru, ac y byddai sicrhau bod y rhain yn cael eu cydnabod ac yn fwy hygyrch yn helpu mwy o rieni i elwa arnynt.

Soniodd llawer o ymatebwyr, a dros 50% o sefydliadau, am bwysigrwydd sgrinio ac asesu risg yn effeithiol er mwyn sicrhau mai dim ond mewn achosion priodol y defnyddir rhaglenni magu plant. Roedd cyfranogwyr yn ein digwyddiad bwrdd crwn ar gam-drin domestig yn argymhell bod arbenigwyr ar gam-drin domestig yn cymryd rhan mewn unrhyw broses sgrinio i liniaru risgiau y ddiodefwyr. Pwysleisiwyd y broses hon yn arbennig gan y sefydliadau nad oeddent o blaid gorfodi neu annog presenoldeb mewn rhaglen magu plant

ar y cyd yn gynharach yn ystod achosion.

Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith efallai na fyddai rhaglenni magu plant ar y cyd cyn y llys yn addas ar gyfer pob cwpl sy'n gwahanu, yn enwedig ar gyfer y rheini lle mae un parti wedi gwneud honiadau o gam-drin domestig, oherwydd nad oes mecanwaith ar hyn o bryd i asesu diogelwch neu addasrwydd rhaglen magu plant *cyn* y llys. Dywedodd ymatebwyr a chyfranogwyr yn ein digwyddiad bwrdd crwn ar gam-drin domestig wrthym, pe bai cyfryngu gorfodol yn cael ei gyfuno â rhaglenni magu plant ar y cyd gorfodol cyn y llys, yna byddai angen i broses sgrinio cam-drin domestig briodol a thrylwyr fod ar waith a dylid ei datblygu ochr yn ochr ag arbenigwyr ar gam-drin domestig.

Cwestiwn 2: Os ydych chi o blaid hyn, a ydych chi o blaid ei wneud yn ofynnol cyn gallu dechrau cyfryngu?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau dros eich ateb

O'r rheini a oedd o blaid, dywedodd 47% y gallai cwblhau rhaglen magu plant yn gynharach arwain at ganlyniadau cyfryngu gwell, gan y byddai rhieni yn ffocysu fwy ar anghenion eu plant ac yn fwy agored i ymgysylltu ar gychwyn y broses gyfryngu. Cyfeiriwyd sawl gwaith at bwysigrwydd rhaglenni magu plant sy'n gosod sylfeini y gall cyfryngu adeiladu arnynt, gan arwain at fwy o siawns y bydd cyfryngu'n llwyddo i ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys.

Mae hyn o'i gymharu â 41% a oedd yn credu na ddylai rhaglen a rennir fod yn ofynnol cyn y gall cyfryngu ddechrau. Rhoddwyd rhesymau amrywiol dros hyn; un o'r prif resymau oedd, er y gallai annog cwblhau rhaglen magu plant ar y cyd cyn cyfryngu fod yn gadarnhaol, y gallai gorfodi hyn anwybyddu cymhlethdodau mewn rhai achosion. Dywedodd rhai hefyd eu bod yn credu y gallai rhaglenni magu plant ddigwydd ochr yn ochr â chyfryngu, nid o reidrwydd cyn cychwyn. Dywedodd eraill fod yr oedi yr oedd teuluoedd yn ei wynebu cyn mynd i'r llys eisoes yn rhy hir ac y byddai ychwanegu gofyniad newydd yn gwaethgu'r broblem.

Cwestiwn 3: A ddylid darparu gwybodaeth am broses y llys (gwybodaeth gyfreithiol heb ei theilwra) i'r rheini sydd mewn anghydfod cyfraith deulu breifat:

- yn y cyfarfod asesu a gwybodaeth am gyfryngu (MIAM)
- yn y rhaglen magu plant ar y cyd
- drwy adnodd ar-lein
- drwy unrhyw ddull arall (noder)

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym y dylai partïon gael cymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch eu hopsiynau ar gyfer datrys anghydfodau, boed hynny y tu mewn neu'r

tu allan i'r llys, cyn gynted â phosibl. Roedd y mwyafrif helaeth o randdeiliaid yn cyd-fynd â hyn, gyda dim ond un rhanddeiliad yn methu â sôn am well rhannu gwybodaeth fel budd posibl. Roedd y mwyafrif yn rhoi pwyslais cryf ar rannu gwybodaeth yn fynych, gan sicrhau bod gwybodaeth yn gyson ac yn hygyrch, a'i bod, lle bo modd, yn benodol ac wedi'i theilwra i'r partïon.

Darparu gwybodaeth yn y cyfarfod MIAM oedd yr opsiwn a ffafriwyd gan ymatebwyr, gyda 68% yn nodi bod hwn yn gam defnyddiol i gael manylion am broses y llys.

Nododd ymatebwyr rai nodweddion buddiol allweddol o rannu gwybodaeth ar y cam hwn: cynhelir cyfarfodydd MIAM wyneb yn wyneb, sy'n fanteisiol ar gyfer darparu gwybodaeth gymhleth am lysoedd; dyma un o'r pwyntiau cyswllt cyntaf gyda rhieni / gofalwyr sy'n debygol o fynd i'r llys; roedd ymatebwyr a rhanddeiliaid o'r farn mai'r gorau po gyntaf y dylid rhannu gwybodaeth. Roedd 49% o'r ymatebwyr yn cefnogi rhannu gwybodaeth mewn rhaglenni magu plant ar y cyd. O'r rhain, roedd 75% o'r farn y dylid rhannu gwybodaeth ar bob cyfle (MIAM, y rhaglen magu plant ar y cyd, ac ar-lein). O'r ymatebwyr a oedd yn credu mai rhaglenni magu plant ar y cyd yn unig oedd y lle mwyaf priodol i rannu gwybodaeth, y manteision a nodwyd oedd bod hyn yn digwydd yn gynnar yn y broses ac yn digwydd wyneb yn wyneb.

Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr yn poeni y byddai rhannu gwybodaeth yn ystod y rhaglenni hyn yn tynnu sylw oddi wrth y plentyn a nodau cyffredinol y prosiect magu plant ar y cyd.

Rhannu gwybodaeth ar-lein oedd yr unig un o'r opsiynau hyn a gafodd ei annog yn gyson ac yn benodol gan randdeiliaid, yn ogystal â chael ei gefnogi gan 57% o'r ymatebwyr. Dywedodd dros hanner y rhanddeiliaid wrthym y byddai hyb gwybodaeth 'cynhwysfawr' ar-lein yn ddefnyddiol i deuluoedd.

Fodd bynnag, nododd llawer o ymatebwyr hefyd ei bod yn anodd i bartïon sy'n ymwneud â gwahanu ganfod ffynonellau gwybodaeth a chynghor cywir.

Cwestiwn 4: Ar sail yr adnoddau ar-lein presennol, beth yw eich barn am ddarparu adnodd ar-lein gan y llywodraeth i helpu rhieni, gofalwyr ac efallai plant sy'n ymwneud ag achosion trefniadau plant? Pa wybodaeth ac adnoddau y dylid rhoi blaenoriaeth i'w darparu drwy unrhyw adnodd o'r fath i helpu teuluoedd i ddatrys materion yn gynharach?

I raddau helaeth iawn, roedd y rheini a oedd yn bresennol mewn digwyddiadau bwrdd crwn ac ymatebwyr yn teimlo bod gormod o wybodaeth anghyson a di-fudd ar-lein ac roedd angen ffynhonnell ganolog o wybodaeth ac arweiniad wedi'i chefnogi gan y llywodraeth y gallai pobl droi ati. Mewn trafodaethau bwrdd crwn, nododd sawl grŵp o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys y *Family Solutions Group* a'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, eu bod am weld gwybodaeth fwy hygyrch yn cael ei thargedu at bobl ifanc.

Pwysleisiodd gweithwyr proffesiynol mewn trafodaethau bwrdd crwn fod iaith a fframio gwybodaeth ar-lein yn bwysig; maent yn cydnabod mai adnoddau ar-lein yw'r peth cyntaf y

mae llawer o bartïon yn troi ato, ac felly bod ganddynt rôl i'w chwarae wrth ddefnyddio iaith anwrthwynebol.

Tynnodd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol mewn tri digwyddiad bwrdd crwn, a llawer o ymatebwyr, sylw at fanteision llwyfan ar-lein dibynadwy a fyddai'n cefnogi ac yn grymuso partiön. Roedd tua 59% o'r ymatebwyr yn ffafrio adnodd ar-lein. Thema allweddol y cyfeiriwyd ati gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr oedd na ddylid ystyried adnodd o'r fath yn ateb i bob problem, ac y dylai fod yn rhan o'r system datrys cynnar yn unig, gydag ymyriadau wyneb yn wyneb fel cyfryngu yn dal i chwarae rhan bwysig. Roedd llawer o ymatebwyr yn argymhell yn gryf y dylai gwybodaeth ar-lein fod yn syml ac wedi'i llunio'n glir i sicrhau bod rhieni, gofalwyr a phlant o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys y rheini y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn gallu deall yr wybodaeth ac elwa ohoni.

Roedd yr angen i ddarparu gwybodaeth mewn sawl fformat, nid yn ddigidol yn unig, hefyd yn cael ei amlygu'n gryf gan ymatebwyr, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd gan bawb fynediad i'r rhyngwyd.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu ei bod yn briodol i gyfryngwyr benderfynu'r addasrwydd i gymryd rhan mewn rhaglen magu plant ar y cyd mewn cyfarfod i ddarparu gwybodaeth?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau dros eich ateb

Roedd safbwyntiau cymysg gan ymatebwyr ar y pwynt hwn, heb farn glir mwyafrifol (yn yr achos hwn, mae 'mwyafrif' yn golygu dros 50% o'r ymatebion). 'Ydw' oedd ateb tua 45% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, gyda chyfryngwyr yn cyfrif am 16% o'r grŵp hwn. Teimlai tua 35% o'r ymatebwyr nad oedd yn briodol i gyfryngwyr benderfynu ar addasrwydd ar gyfer rhaglenni magu plant ar y cyd. Yn aml, tynnodd y rheini a atebodd 'nac ydw' i'r cwestiwn hwn sylw at y ffaith mai un llwybr posibl yn unig oedd cyfryngwyr ar gyfer cael pobl i ymgysylltu â rhaglenni magu plant, ac na ddylai partiön o reidrwydd orfod aros i siarad â chyfryngwr er mwyn cael eu cyfeirio at raglen magu plant.

Dim ond un digwyddiad bwrdd crwn a awgrymodd y dylai cyfryngwyr benderfynu ar addasrwydd, gyda'r lleill yn cynghori'n benodol yn erbyn hyn. Roedd y digwyddiadau bwrdd crwn hyn yn cynnwys Cymorth i Fenywod, Cymdeithas y Gyfraith, Llywodraeth Cymru, a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig. Nid yw cyfryngwyr yn cael hyfforddiant arbenigol ar hyn o bryd ar adnabod cam-drin domestig; roedd gweithwyr proffesiynol yn poeni y byddai hyn yn llesteirio eu gallu i wneud penderfyniadau diogel a phriodol ynghylch rhaglenni magu plant.

O'r ymatebwyr a deimlai y dylai cyfryngwyr allu pennu addasrwydd, dywedodd o leiaf 13% yn benodol y byddai profiad a sgiliau cyfryngwyr yn eu cefnogi i wneud y penderfyniad hwn. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi cyfryngwyr i wneud y penderfyniad hwn, gan eu bod yn cwrdd â'r ddau riant yn gynnar yn ystod yr achos, ac felly'n gallu mesur manteision

rhaglen magu plant yn effeithiol ym mhob achos. Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr a atebodd 'ydw' hefyd yn glir y byddai angen i gyfryngwyr gael hyfforddiant digonol i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

P'un a oedd ymatebwyr yn teimlo bod cyfryngwr yn ffordd briodol o gyfeirio ai peidio, roeddent yn aml yn mynegi eu teimladau bod yn rhaid i'r cyfeiriwr fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau cyfraith deulu a phrosesau diogelu cam-drin domestig.

Cwestiwn 6: Allwch chi rannu unrhyw brofiad neu dystiolaeth ychwanegol o gyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys o wledydd eraill a'r gwersi a ddysgwyd o hynny?

Ni chawsom lawer o enghreifftiau o gyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys mewn gwledydd eraill y tu hwnt i'r rheini a drafodwyd eisoes yn ymgynghoriad y Llywodraeth (Awstralia, Seland Newydd a Norwy). Roedd enghreifftiau'n cynnwys Malta, lle mae'n rhaid i gwpl gwrdd â chyfryngwr a benodwyd gan y llys i geisio dod i gytundeb cyn y gallant ddod ag achos i'r llys, a California, lle mae'n rhaid i bob rhiant gymryd rhan mewn cyfryngu cyn gwrandawriad ynghylch trefniadau plant. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sgrinio cam-drin domestig priodol yn system California.

Cwestiwn 7: Ym mha ffordd y dylai'r cyfarfod 'MIAM' cyn cyfryngu o dan y model arfaethedig hwn fod yn wahanol i'r MIAM presennol?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol. Nid oedd llawer wedi ateb y cwestiwn neu nid oeddent yn teimlo'n ddigon gwybodus am y MIAM presennol i roi sylwadau. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a atebodd yn credu mai ychydig o newidiadau, os o gwbl, y dylid eu gwneud i'r system bresennol. Ar hyn o bryd, bydd cyfryngwr teuluol awdurdodedig (hynny yw, cyfryngwyr a bennir gan y Cyngor Cyfryngu Teuluol) yn cynnal MIAM i asesu a yw anghydfod yn addas ar gyfer cyfryngu ac yn rhannu gwybodaeth am y broses gyfryngu a dewisiadau eraill y tu allan i'r llys.

Cynigodd nifer o ymatebwyr lawer o newidiadau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- a. Dywedodd nifer o ymatebwyr, pan fydd cyfarfodydd MIAM yn cael eu cynnal, y dylai fod yn ofynnol i'r ddau barti gymryd rhan, yn hytrach na'r ymgeisydd yn unig. Dyma'r farn fwyaf cyffredin a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch newidiadau i gyfarfodydd MIAM.
- b. Argymhellodd tua 5% o'r ymatebwyr bod cyfarfodydd MIAM yn cael eu hailgynllunio i wella'r ffocws ar les gorau'r plentyn. Roedd canran debyg yn mynegi awydd i ymgorffori gwybodaeth neu nodweddion rhaglen magu plant ar y cyd mewn MIAM diwygiedig.
- c. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr, os caiff cyfarfodydd MIAM eu hail-ddylunio, y dylent gynnwys mwy o integreiddio gwasanaethau cysylltiedig, gan gynnwys arbenigwyr ar gam-drin domestig.

Cwestiwn 8: Beth ddylai gael ei gyfrif yn “ymdrech resymol i gyfryngu”? A ddylid canolbwyntio ar nifer y sesiynau cyfryngu, yr amser a gymerwyd, agwedd y person at gyfryngu neu a oes posibiladau eraill?

Teimlai llawer o'r ymatebwyr y byddai'n anodd pennu 'ymgysylltu rhesymol' mewn system orfodol. Tynnodd llawer sylw at y ffaith bod 'rhesymoldeb' yn oddrychol ac felly, os yw'n cael ei fesur, dim ond mewn pwyntiau data gwrthrychol y dylid mesur 'rhesymoldeb', e.e. a oedd unigolyn wedi mynychu sesiwn ai peidio. O'r rheini a oedd yn cytuno â'r cynigion, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys asesiad o ymagwedd unigolyn at gyfryngu, a nifer y sesiynau a fynychwyd (er bod y syniadau ynghylch nifer y sesiynau'n amrywio rhwng 1 a 3 sesiwn).

Cwestiwn 9: a) Ydych chi'n cytuno y dylai ceisiadau brys, amgylchiadau o ran amddiffyn plentyn (sydd wedi'u nodi yn yr esemptiad presennol rhag MIAM), ac achosion lle mae tystiolaeth benodedig o gam-drin domestig, gael eu hesemptio rhag ymdrech i gyfryngu cyn mynd i'r llys?

- Ydw
 - Nac ydw
 - Ddim yn gwybod
- Rhowch resymau dros eich ateb

Roedd mwyafrif llethol o 69% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad hwn, gan gredu bod yr esemptiadau hyn yn fesurau pwysig i amddiffyn plant a goroeswyr cam-drin domestig. Roedd pryderon ynghylch sut roedd yr esemptiadau hyn yn cael eu cymhwyso, gyda rhai'n mynegi pryderon bod y gofynion tystiolaeth yn esemptio goroeswyr cam-drin rhag cael mynediad at esemptiadau. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys y canlynol: efallai nad yw dioddefwyr cam-drin domestig yn cydnabod eu bod yn ddiodeffwyr; mae'r diodeffwr sy'n cysylltu â gwasanaethau cam-drin domestig yn cael ei ddefnyddio'n aml fel tystiolaeth, ond ni fydd pob diodeffwr wedi gwneud hynny, sy'n golygu na fydd gan bob un y dystiolaeth hon, a gall peidio â chael eu credu pan fyddant wedi gwneud yr honiadau hyn fod yn niweidiol iddynt. Mynegodd eraill bryderon bod esemptiadau'n cael eu cam-drin gan rai ymglyfreithwyr.

Atebodd cyfran fach o'r ymatebwyr (12%) 'ddim yn gwybod' neu ni wnaethant ymateb i'r cwestiwn hwn, ac nid oedd 18% yn cefnogi'r datganiad hwn. Dywedodd y rheini a oedd yn anghytuno wrthym na fyddai honiadau o gam-drin domestig o reidrwydd yn atal cyfryngu rhag digwydd ac y gellid eu cynnal ar wahân drwy gyfryngu gwennol.

O ran pa amgylchiadau ddylai gael eu hystyried yn rhai brys, y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd:

- a. Os oes risg o herwyddio neu risg o fynd ar ffo?

- b. Os oes risg o niwed i blentyn neu oedolyn?
- c. Arall (gan gynnwys pan fydd argyfwng meddygol neu addysgol, neu benderfyniad tebyg o dan bwysau amser i'w wneud).

Cwestiwn 10: Os ydych chi'n credu y dylai amgylchiadau eraill fod wedi'u hesemptio, beth yw'r rhain, a pham?

O'r rheini a atebodd y cwestiwn hwn, y themâu allweddol oedd:

- a. Mewn achosion ble mae camddefnyddio cyffuriau ac alcohol wedi analluogi un o'r partïon.
- b. Pan fydd gweithredoedd rhieni / gofalwyr yn dod yn afresymol o ganlyniad i salwch meddwl.
- c. Lle ceir euogfarnau treisgar blaenorol.
- d. Lle ceir honiadau o gam-drin rhywiol, rhwng partïon ac mewn achosion o Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Cwestiwn 11: Sut y dylid asesu esemptiadau rhag y gofyniad gorfodol am gyfyngu a phwy a ddylai eu hasesu (hynny yw, barnwyr/cynghorwyr cyfreithiol ynadon neu gyfryngwyr)? A yw'ch ateb yn wahanol yn ôl y math o esemptiad?

Er bod chwarter yr ymatebwyr yn teimlo mai cyfryngwyr oedd yn y sefyllfa orau i asesu esemptiadau, roedd bron i draean o'r ymatebwyr hyn yn gyfryngwyr eu hunain. Teimlai eraill y byddai ymarferydd cyfreithiol mewn gwell sefyllfa ac y gallai alluogi trefniadau porthgadw cynharach a fyddai'n lleihau oedi i'r broses. Fodd bynnag, unwaith eto, roedd tua thraean o'r rhain yn ymarferwyr cyfreithiol eu hunain.

Ar hyn o bryd, caniateir rhywfaint o hyblygrwydd i lysoedd lleol o ran sut y maent yn ymarfer trefniadau porthgadw. Fodd bynnag, mae presenoldeb mewn cyfarfodydd MIAM yn cael ei ystyried yn gynnar ac yn gyson wrth borthgadw gan gynghorwyr cyfreithiol neu farnwyr. Os nad yw partïon wedi mynychu cyfarfodydd MIAM ac nad oes ganddynt esemptiad dilys, bydd yr achos yn cael ei ohirio nes bydd y gofyniad hwn wedi'i gyflawni. Mewn achosion lle ceir tystiolaeth o gam-drin domestig, neu fethdaliad, gellir caniatáu esemptiad MIAM. Fodd bynnag, un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion oedd yr angen i adolygu'r prosesau presennol ar gyfer porthgadw a gorfodi er mwyn sicrhau bod y broses yn gweithio'n effeithiol.

Cwestiwn 12: Beth yw'ch barn ynghylch darparu ar gyfer talu holl gostau cyfryngu gorfodol cyn mynd i'r llys ar gyfer ceisiadau am rwymedi ariannol?

Roedd yr ymatebwyr yn glir y dylai unrhyw ofyniad gorfodol gael ei ariannu mewn rhyw ffordd ond roedd gwahanol safbwyntiau ar werth rhagnodedig y cyllid hwn. Awgrymodd llawer fod angen gwneud rhagor o waith i ddeall a oedd angen codi'r terfyn talebau o dan y Cynllun Talebau Cyfryngu i sicrhau ei fod yn cynnwys digon o sesiynau i sicrhau canlyniadau ystyrlon. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun talebau'n cynnig taleb gwerth £500 i bartïon ymgymryd â chyfryngu sy'n ymwneud â materion plant cyfraith breifat.

Roedd rhai ymatebwyr o blaid dull seiliedig ar brawf modd ar gyfer achosion cyllid ac roedd eraill yn tynnu sylw at y ffaith bod dull sy'n seiliedig ar brawf modd yn aml yn broses hir sydd â'r potensial i gosbi rhai grwpiau yn anfwriadol (e.e. y rheini sydd ag asedau ond ychydig iawn o arian parod).

Cwestiwn 13: A yw cynllun achredu presennol y Cyngor Cyfryngu Teuluol (FMC) yn darparu'r mesurau diogelu sydd eu hangen neu a oes angen rheoleiddio ychwanegol?

- Ydy
- Nac ydy, mae angen rheoleiddio ychwanegol
- Ddim yn gwybod

I roi cyd-destun, mae cod ymddygiad presennol yr FMC ar gyfer cyfryngwyr yn datgan bod yn rhaid i bob cyfryngwr fod â pholisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith. Mae hyn yn cynnwys gwreiddio sgrinio ar gyfer trais domestig mewn cyfarfodydd Gwybodaeth ac Asesu a defnyddio esemptiadau i gyfrinachedd i roi gwybod i'r awdurdodau am bryderon diogelu. Dywedodd tua hanner yr holl ymatebwyr wrthym nad oeddent yn gwybod digon am gynllun achredu'r FMC i roi sylwadau ar y cwestiwn hwn. O'r rhai a wnaeth sylwadau, y consensws cyffredinol oedd bod achrediad yr FMC yn gadarn, ond bod gwerth mewn rhoi mesurau ar waith i wella ei effeithiolrwydd. Un awgrym eithaf cyffredin gan ymatebwyr oedd y byddai gwell hyfforddiant ar gam-drin domestig o fudd i gyfryngwyr o ran adnabod a darparu cymorth emosiynol a chyfeirio priodol i ddioddefwyr cam-drin domestig. Teimlai nifer o'r ymatebwyr y byddai ffocysu hyfforddiant cyfryngu ar sut i sicrhau lles y plentyn yn cael effaith andwyol ar effeithiau cadarnhaol cyfryngwyr. Yn olaf, tynnwyd sylw at y gofyniad bod pob cyfryngwr yn cael ei gofrestru fel strategaeth effeithiol bosibl ar gyfer gwella canlyniadau cyfryngu ymhellach. Ar hyn o bryd, cyfryngwyr achrededig FMC sy'n cynnal pob cyfarfod MIAM. Fodd bynnag, byddai'r argymhelliad hwn gan ymatebwyr yn golygu bod yr holl gyfryngu'n cael ei gynnal drwy achrediad FMC. Roedd trafodaethau bwrdd crwn yn tynnu sylw at bryderon ynghylch pobl heb hyfforddiant yn symud i'r sector, gan nodi nad yw 'cyfryngwr' yn deitl gwarchodedig.

Cwestiwn 14: Os ydych chi'n credu bod angen rheoleiddio ychwanegol, pam ac i ba bwrpas?

Roedd yr ymatebwyr yr ymgynghorwyd â hwy a atebodd y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o hyfforddiant ar gam-drin domestig, cyfryngu sy'n cynnwys plant, a dealltwriaeth dda o gyfraith teulu.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith nad oes llawer o reoleiddio y tu allan i ymbarél y Cyngor Cyfryngu Teuluol, er bod y cynigion yn cyfeirio at bob math o gyfryngu yn cael ei wneud yn unig gan gyfryngwyr sydd wedi'u hachredu gan yr FMC. Roeddent yn pwysleisio'r dasg gymhleth y mae cyfryngwyr yn ei hwynebu wrth ddatrys anghydfodau a'r angen am hyfforddiant ac achrediad cyson i ddiogelu ac i sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Cwestiwn 15: a) A ddylid ehangu'r gofyniad am gyfryngu cyn mynd i'r llys i gynnwys ymdrechion rhesymol i ddefnyddio mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR), neu a ddylai fod yn gymwys i gyfryngu yn unig?

- Cyfryngu yn unig
- Mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)
- Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

b) Beth yw manteision ac anfanteision ehangu'r gofyniad?

c) Os oeddech wedi rhoi 'mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)' yn ateb i gwestiwn 15a, pa fathau eraill o NCDR y dylai ei gynnwys?

d) Os oeddech wedi rhoi 'mathau eraill o ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (NCDR)' yn ateb i gwestiwn 15a, pa fframweithiau achredu/rheoleiddio a geir ar gyfer mathau eraill o NCDR a allai helpu pobl i setlo anghydfodau teuluol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i achosion plant cyfraith breifat ac achosion rhwymedi ariannol?

e) Os yw'r gofyniad yn gymwys i gyfryngu yn unig, a ddylai'r ffaith bod dull arall o ddatrys anghydfod wedi'i gyflawni fod yn rhywbeth sy'n arwain at esemptio rhag y gofyniad i roi cynnig ar gyfryngu?

Yr hyn a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd y gred y dylid rhoi amrywiaeth o opsiynau i deuluoedd, oherwydd efallai na fydd cyfryngu'n addas ym mhob achos. Dywedodd llawer o ymatebion a thrafodaethau bwrdd crwn wrthym y byddai galluogi pobl i wneud dewis gwybodus ynghylch pa lwybr fyddai orau ar gyfer eu hamgylchiadau yn debygol o arwain at ganlyniadau gwell na mabwysiadu dull un ateb i bawb. Ychydig o ymatebwyr (8%) atebodd 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn.

Roedd prif fanteision ehangu'r gofyniad i fathau eraill o NCDR yn cynnwys:

- a. Byddai'n helpu i ateb y galw cynyddol am ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys os bydd mwy o bobl yn cael eu hannog i ddatrys eu hanghydfodau y tu allan i'r llys.

- b. Byddai partïon sy'n anaddas ar gyfer cyfryngu, neu sy'n amharod i ymgysylltu ag ef, yn gallu dewis dull gwahanol o ddatrys anghydfod, sydd â'r potensial i arwain at fwy o siawns o lwyddo.

Dyma'r prif anfanteision a nodwyd:

- a. Y byddai angen i bobl gael digon o wybodaeth am eu hopsiynau, beth fyddai pob un yn ei olygu, faint o amser y byddai pob un yn ei gymryd ac ati.
- b. Mae gwahaniaeth cost rhwng gwahanol fathau o NCDR.

Yr atebion a nodwyd amlaf ar gyfer pa fathau eraill o NCDR y gellid eu defnyddio oedd cymrodeddu, gwerthuso niwtral cynnar (ENE) a negodi rhwng cyfreithwyr. Proses wirfoddol yw cymrodeddu lle bydd cymrodeddwr annibynnol yn adolygu manylion anghydfod ac yn gwneud penderfyniad y gellir ei orfodi wedyn gan y llysoedd. Os bydd partïon yn dewis dilyn y trywydd hwn, rhaid iddynt dalu costau'r cymrodeddwyr. Cynhelir ENE gyda barnwr a fydd yn adolygu'r achos ac yn rhoi syniad i bartïon o'r canlyniad tebygol pe bai'n mynd drwy achos llys. Mae hon yn fath anrwymol o NCDR. Os bydd partïon yn dewis defnyddio negodi rhwng cyfreithwyr, bydd eu cyfreithwyr yn gohebu i ddod o hyd i ddatrysiad y mae'r ddau barti'n cytuno ag ef.

Ni chafwyd llawer o ymatebion i ba fframweithiau achredu / rheoleiddio sy'n bodoli ar gyfer mathau eraill o NCDR. Gwnaeth y rheini a atebodd y cwestiwn restru fframweithiau, gan gynnwys yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, Bwrdd Safonau'r Bar, aelodaeth o'r Sefydliad Cymrodeddwyr Cyfraith Teulu, cynllun Achredu Arbenigol *Resolution* a Sefydliad Siartredig y Cymrodeddwyr.

Awgrymwyd bod cymwysterau yn ofyniad hanfodol i unrhyw un sy'n cynnal NCDR.

Roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch a ddylai ymgysylltu â math arall o NCDR esemptio rhywun rhag cyfryngu. Dywedodd y rheini a oedd yn cytuno â'r datganiad y byddai'n lleihau oedi diangen yn y system. Dywedodd y rheini a oedd yn anghytuno, pe bai mathau eraill o NCDR yn aflwyddiannus, y gallai cyfryngu barhau i weithio i setlo anghydfod i ffwrdd o'r llys.

Cwestiwn 16: Beth yw'r ffordd orau i warchod rhag camddefnyddio'r broses datrys anghydfodau cyn mynd i'r llys gan y partïon:

- i. a ddylid rhoi pŵer i'r llys i'w gwneud yn ofynnol i'r partïon eu hegluro eu hunain?
- ii. pa bwerau y dylai'r llys eu cael er mwyn penderfynu a yw parti wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu, er enghraifft wrth ystyried gorchmynion costau posibl?

Dywedodd ymatebwyr wrthym fod gan y llys bwerau eisoes i'w gwneud yn ofynnol i bartïon egluro eu hunain, ac i ohirio'r cais er mwyn ymgysylltu â'r broses gyfryngu neu NCDR arall, ond nad yw'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n aml.

Roedd rhai mynychwyr digwyddiadau bwrdd crwn o'r farn, os yw pobl yn defnyddio adnoddau'r wladwriaeth, fod gan y llys hawl i wybod pam fod rhywun yno ac nid mewn NCDR; ond nododd eraill yr anawsterau wrth benderfynu a wnaed 'cynnig rhesymol' o ystyried natur gyfrinachol cyfryngu.

Cwestiwn 17: Sut byddai system fwy cadarn o orchmynion costau yn gallu cymell partion mewn achosion llys i beidio ag osgoi ymdrechion rhesymol i gyfryngu cyn dod i'r llys neu ar ôl gwneud cais ac i beidio ymestyn achos yn ddiangen? A ddylai barnwyr barhau i gael disgrisiwn i benderfynu pa bryd i wneud y gorchmynion hyn a pha gostau penodol i'w cynnwys?

Teimlai'r rheini a oedd yn cytuno â threfn gorchmynion costau, yn amodol ar ddisgrisiwn barnwrol, ei bod yn gam angenrheidiol i atal pobl rhag camddefnyddio'r system llysoedd.

Mynegodd eraill bryderon y byddai cynyddu'r defnydd o orchmynion costau, yn enwedig mewn achosion plant, yn niweidiol am y rhesymau canlynol:

- a. Gellid defnyddio bygythiad gorchmynion costau fel tacteg i rai sy'n cam-drin orfodi eu partner i roi cynnig ar gyfryngu pan nad yw hyn yn briodol neu'n ddiogel.
- b. Gall ceisio diffinio beth yw 'cynnig rhesymol' i gyfryngu arwain at ragor o niwed i bobl agored i niwed a fyddai'n cael eu hanfon yn ôl i gwblhau proses a allai fod yn anaddas iddynt.
- c. Byddai gosod gorchmynion cost ar y rhieni / gofalwyr yn cael effaith negyddol ar y plant mewn achos gan y byddai'n gwneud dim byd ond lleihau cyllid y teulu ymhellach.

Cwestiwn 18: Unwaith y bydd achos wedi dod i mewn i'r system llysoedd, a ddylai'r llys gael y pŵer i orchmyn partion i wneud ymdrech resymol i gyfryngu e.e., os yw'r amgylchiadau wedi newid ac nad yw esemptiad a hawliwyd o'r blaen yn berthnasol bellach? A oes gennych chi farn am yr amgylchiadau lle dylai hyn fod yn gymwys?

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod gan y barnwyr eisoes bwerau i atal achosion, i annog pobl i gymryd rhan mewn NCDR er enghraifft, ond nad yw'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai barnwyr gael y pŵer i gyfeirio pobl yn ôl at gyfryngu pan fydd amgylchiadau wedi newid, ar unrhyw adeg yn yr achos. Dywedodd rhai cyfryngwyr wrthym fod cyfryngu llwyddiannus yn dal yn bosibl ar ôl i'r achos ddechrau ar yr amod bod y partion yn fodlon cymryd rhan yn y broses.

Tynnodd y rheini a oedd yn gwrthwynebu'r syniad sylw at eu pryderon mai dim ond rhagor o oedi y byddai gohirio achosion yn ei gyflawni, gan ymestyn anghydfodau yn hytrach na'u

datrys yn gynharach. Codwyd pryderon hefyd ynghylch sut y byddai 'cynnig rhesymol' yn cael ei fesur.

Cwestiwn 19: Ym marn ymgynghoreion, pa ran a ddylai fod i ffioedd llys wrth gynnal amcanion cyffredinol y system cyfiawnder teulu? A ddylai fod yn ofynnol i bartïon gyfrannu mwy at gostau'r gwasanaeth llys y maent yn ei ddefnyddio?

Dim ond 62 o ymatebwyr oedd o blaid ffioedd llys un ai'n aros yr un fath neu'n cynyddu; roedd mwy o ymatebwyr yn anghytuno â chynnydd mewn ffioedd.

O'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnydd mewn ffioedd, y brif thema a ddaeth i'r amlwg oedd y gallai ffioedd uwch fod yn rhwystr i gyfiawnder gan ein bod yn gwybod bod y rhai sy'n ceisio cael mynediad i'r llys teulu yn profi lefelau anghymesur o amddifadedd. Roedd galw hefyd am i ffioedd fod yn destun prawf modd mewn achosion teulu.

Fodd bynnag, nododd llawer o ymatebwyr na ddylai fod yn rhatach ymgyfreitha na cheisio datrys materion y tu allan i'r llys gan nad yw hyn yn cymhell pobl i fynd ar drywydd datrysiad y tu allan i'r llys, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno'n gryf â'r farn a rennir gan y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion na ddylai ffioedd fod yn rhwystr i gyfiawnder. Dyna pam mae'r Llywodraeth yn gweithredu'r cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd (HWF) i sicrhau bod pob unigolyn, beth bynnag fo'i amgylchiadau ariannol, yn gallu cael mynediad i'r llysoedd. Ar 27 Tachwedd roeddem wedi diwygio'r cynllun i fod yn fwy hael drwy ddarparu mwy o gymorth ariannol i bobl sy'n ennill cyflog isel a chanolig. Er nad yw ffioedd llysoedd a thriwlynlysoedd yn destun prawf modd uniongyrchol, mae argaeledd cynllun dileu ffioedd sy'n seiliedig ar amgylchiadau ariannol unigolyn yn fath o brawf modd ar gyfer talu'r ffioedd hyn.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y safbwyntiau a rannwyd gan y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion ynghylch rôl y defnyddiwr o ran cyfrannu at gyllido'r llys mewn achosion cyfraith breifat. Ochr yn ochr â ffioedd llys, mae'r wladwriaeth yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o ariannu'r llysoedd a'r triwlynlysoedd. Fodd bynnag, mae cost gweinyddu'r llysoedd a'r triwlynlysoedd wedi cynyddu ers i'r ffioedd gael eu codi ddiwethaf yn 2021 oherwydd costau gweinyddol a barnwrol cynyddol. Mae'r Llywodraeth nawr yn ymgynghori ar gynnig i gynyddu'r rhan fwyaf o ffioedd ar draws Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) 10%, a lansiwyd ar 10 Tachwedd. Mae hyn yn sylweddol is na'r lefel chwyddiant a wynebwyd ers 2021, ac felly byddai'n cynrychioli cyfran gynyddol o gyllid trethdalwyr tuag at gost rhedeg y llysoedd a'r triwlynlysoedd ers 2021.

Bydd y cynllun Help i Dalu Ffioedd diwygiedig yn parhau i sicrhau bod costau'r rheini sydd â'r incwm isaf yn cael eu talu'n llawn. Bydd y diwygiadau hefyd yn golygu y gall hyd yn oed y rhai sy'n uwch ar y dosbarthiad incwm dalu llai i wneud cais i'r llys. Bydd hyn yn wir ni waeth beth fydd canlyniad unrhyw benderfyniadau a wneir i gynyddu ffioedd y llys.

Yn ogystal â'r cwestiynau a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad, cawsom adborth hefyd gan ymgynghoreion ar y cynnig i orfodi cyfryngu. Dywedodd y rheini a oedd yn cefnogi'r cynnig y byddai hyn yn helpu i normaleiddio cyfryngu, gan y byddai'n cael ei ystyried fel 'cam cyntaf' anghydfod rhwng rhieni / gofalwyr. Byddai hyn wedyn, yn ei dro, yn galluogi amser ac adnoddau'r llysoedd teulu i gael eu neilltuo i'r teuluoedd hynny sydd ei angen fwyaf.

O'r rhai a fynegodd bryderon ynghylch cyfryngu gorfodol, gellir categoreiddio'r materion allweddol yn y ffyrdd canlynol:

- a. Teimlai rhai ymatebwyr fod cyfryngu llwyddiannus yn dibynnu ar bartïon yn ymuno â'r broses yn wirfoddol. Ar y sail honno, gallai mynnu bod partïon yn rhoi cynnig ar gyfryngu beryglu'r ddeinameg hon.
- b. Byddai cyflwyno gofyniad i roi cynnig ar gyfryngu yn cynyddu'r risg y gallai rhywun sydd wedi goroesi cam-drin domestig gael ei orfodi i gyfryngu â'r sawl sy'n eu cam-drin.
- c. Efallai y bydd dulliau eraill o ddatrys anghydfodau yn fwy addas i rai pobl, felly efallai na fydd defnyddio dull un ateb i bawb yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i lawer o deuluoedd.

Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg

Cydraddoldebau

Mae manylion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi'u nodi yn Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- a. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- b. Hybu cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol o bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt; a
- c. Meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol o bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt.

Y nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, partneriaeth sifil, ethnigrwydd, ailbennu rhywedd, priodas, beichiogrwydd a mamolaeth, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

Wrth i bob un o'r diwygiadau a nodir yn Ymateb y Llywodraeth gael eu datblygu, rhoddir ystyriaeth briodol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y mae'n berthnasol i bob diwygiad unigol. Mae'r ystyriaethau isod wedi cael eu gwneud mewn perthynas â'r pecyn o ddiwygiadau yn ei gyfanrwydd.

Gwahaniaethu uniongyrchol

Rydym o'r farn nad yw'r cynigion a nodir yn Ymateb y Llywodraeth yn gwahaniaethu'n uniongyrchol gan y byddai'r cynigion yr un mor berthnasol, beth bynnag fo unrhyw nodweddion gwarchoddedig. Nid ydym o'r farn y byddai'r mesurau arfaethedig yn golygu bod oedolion, plant, cyflogeion neu weithwyr proffesiynol sy'n datrys anghydfodau yn cael eu trin yn llai ffafriol, gan eu bod yn ceisio cryfhau'r broses a'r cymorth i deuluoedd sy'n datrys trefniadau plant, ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

Rydym wedi ystyried gwahaniaethu anuniongyrchol ac a fyddai'r cynigion yn Ymateb y Llywodraeth yn debygol o roi oedolion, plant, cyflogeion a gweithwyr proffesiynol sy'n datrys anghydfodau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig dan anfantais benodol o'u cymharu â'r rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Mae ein data'n dangos, o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol, bod oedolion a phlant sydd o a) cefndir Gwyn Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, b) cefndir ethnig cymysg neu luosog ac, yn benodol, dau o'r cefndiroedd ethnig cymysg, c) unrhyw gefndir ethnig cymysg neu luosog arall, d) cefndir gwyn a Du Caribiaidd cymysg, ac e) y rheini sydd ag unrhyw gefndir ethnig arall, yn cael eu gorgynrychioli mewn cyfraith teulu breifat. Roedd plant â diagnosis o'r sbectrwm awtistig hefyd yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r rheini yn y boblogaeth gyffredinol.

Mae ein tystiolaeth hefyd yn dangos bod dynion yn cael eu gorgynrychioli fel ymgeiswyr mewn achosion cyfraith teulu breifat, tra bo mamau'n gyfran uwch o'r ymatebwyr.

Mae plant yn y grŵp 5–10 oed hefyd yn cael eu gorgynrychioli (o'u cymharu â grwpiau oedran plant eraill) mewn achosion cyfraith teulu breifat.

Rydym o'r farn y gallai ein cynigion, sydd â'r nod o geisio cryfhau datrys gwrthdaro'n gynharach a chefnogi teuluoedd i ddatrys trefniadau plant y tu allan i'r llys lle bo hynny'n bosibl, gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn. Ar ôl ystyriaeth briodol, credwn fod y cynigion yn ffordd gymesur o gyflawni ein nod cyfreithlon o gefnogi teuluoedd i ddatrys trefniadau plant ac achosion rhwymedi ariannol waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig.

Gwahaniaethu yn codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

Rydym yn cydnabod ei bod yn dal yn bwysig ein bod yn parhau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion ag anableddau sy'n rhan o deulu sy'n ceisio datrys trefniadau plant ac ariannol, er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi. Byddwn yn parhau i gymryd camau i sicrhau hygrychedd i bobl ag anableddau, er enghraifft drwy sicrhau bod cyfarfodydd MIAM ar gael ar-lein. Rydym yn hyderus na fydd unrhyw anfantais benodol i bobl ag anableddau.

Aflonyddu ac erledigaeth

Nid ydym yn credu y bydd y meysydd newid a gynigir yn Ymateb y Llywodraeth yn arwain at aflonyddu neu erledigaeth o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb, yn enwedig o ystyried ein bod yn sicrhau bod mesurau ac esemptiadau priodol ar waith ar gyfer achosion lle mae cam-drin domestig yn bresennol. Mae rhai o'r cynigion a nodir uchod, e.e. y dull ymchwilio ar gyfer Cynlluniau Peilot cyfraith breifat Pathfinder, wedi cael eu dylunio'n benodol i wella profiadau goroeswyr cam-drin domestig ymhellach.

Hyrwyddo cyfle cyfartal

Ystyriwyd ym mha ffordd y mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal drwy ddiwallu anghenion oedolion, plant a chyflogeion sy'n rhannu nodwedd benodol, pan fo'r anghenion hynny'n wahanol i angen y rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno.

Credwn y bydd y gyfres o ddiwygiadau a amlinellir yn Ymateb y Llywodraeth o fudd i bob teulu drwy eu helpu i ddod i gytundebau'n gyflymach ac mewn ffordd lai gwrthwynebus, ac mae hyn yn golygu y bydd o fudd i grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol sydd wedi'u gorgynrychioli yn y mathau hyn o achosion.

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ystyried y goblygiadau i'r Gymraeg. Bydd fersiwn Gymraeg o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r fersiwn hwn.

Cefnogi penderfynu cynharach ar drefniadau cyfraith deulu breifat
Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1__.pdf

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

1gc family law
3PB
AG Contact Centres Ltd.
AIM Mediation Ltd.
Alternative Family Law
amicable
Ann McCabe solicitors
Archbishops' Commission on Families and Households
Association of Lawyers for Children
Ataraxy Mediation and Ataraxy Family Mediation Training
Barrister practising from Monckton Chambers
Belper Child Contact Centre
Berkshire Family Mediation
Bishop's Stortford Child Contact Centre
Blandy & Blandy
Bridge Child Contact Centre
Bridge Family Mediation
BSG Solicitors
CAFCASS
Cafcass Cymru
Calm Mediation
Cambridge Family Matters
CARA's Centre for Action on Rape and Abuse
Central Law Group CIC
Centre for Action on Rape and Abuse
Chancery Bar Association
Chartered Institute of Arbitrators
Children First Family Mediation
Children Need Voices
Childrens homes, contact centre 24/7 support and outreach
Citizens Advice Caerphilly Blaenau Gwent
Clarion Solicitors
Clarke and Son Solicitors Limited
College of Mediators
Confidante (Family Law)
Consilia Mediation
Cornwall mediation
Council of HM Circuit Judges
Dean Wilson LLP
Devon & Exeter Mediation Practice
District Judge, County Court, Ministry of Justice
Divorce Jigsaw

Divorce Mediation Resolution Limited
Domestic Abuse Commissioner Office
Dootsons Solicitors LLP
Emma Bradford & Co Mediation Ltd
Family Justice Council
Family Law Bar Association
Family Mediation Council
Family Mediation Legal Aid Action
Families Need Fathers
Family Court Crisis
Family Court Reform Coalition
Family Division of the High Court
Family Law in Partnership
Family Law Partners
Family Matters Mediate Limited
Family Mediation and Mentoring LLP
Family Mediation Cymru
Family Mediation Support
Family Mediation Yorkshire
Family Mediators Association
Family Solutions
Family Solutions Group
FM Family Law
FMA
Focus Family Mediation
Gateway Mediation
Gingerbread
Greater London Family Panel
Green Light Mediation Ltd
Hampshire County Council
Harbottle & Lewis LLP
Harpenden Child Contact Centre
HMCTS
HMPPS
Hold Up Your Hands
Holistic Family Mediation & Coaching
Horizon Mediation
Independent Domestic Abuse Services
Independent Social Work Consultancy
Institute of Family Law Arbitrators
J Farrer Mediation
Jane Wilson Mediator
Judges of the Central Family Court
JustForToDay
JUSTICE
Kay and Pascoe LLP
Kee Mediation Ltd

Kent Family Mediation Service
Kevin Shearn Family Law Practice Limited
Kingsley Napley
Krajewski Mediation
Lancaster University
Latin American Women's Rights Service
Law for Life
Legal Aid Practitioners Group (LAPG)
Leicestershire Law Society
LKW Family Mediation
Magistrate
Magistrates' Association
ManKind Initiative
Md8 Family Mediation, Focus Family Mediation, Family Matters Mediation
Mediate UK
Mediation and Domestic Abuse Network
Mediation First
mediation west wales
MESH (Mediation Sheffield)
MiD Mediation and Counselling
Midlands Dove Mediation / Elliot Mather LLP
Minerva Mediation
namf.co.uk
National Association of Child Contact Centres
National Association of Separated Parent Programmes
National Family Mediation
Normal Like Me Specialist SEN Research Services
Northwest Mediation
Nuffield Family Justice Observatory
Only Mums and Dads
Oxford University
Pathway Mediation
Pax Mediation Ltd
Penningtons Manches Cooper
Philippa Cullen Family Mediation
Poole Alcock
Pyramids Contact Centre
Recover Our Kids
Refuge
Relate
Resolution
Respect
Restored Lives
Ria Cohen Family Law Mckenzie Friend Consultancy
Richardson Family Law
Sarah Smith Mediation Services
SeparateSpace

Shared Parenting Scotland
Shropshire bench
Southern Family Mediation Ltd
Stewarts
Sulha Solutions
Support & Supervised Family Contact Centre Ltd
Support Not Separation
Susan Regi Mediator
Susanna Long Family Mediation
Surviving Economic Abuse
Talbots Law Ltd
Tees Valley Mediation
TGP Cymru
Thames Valley Family Mediation Service
The Change for Children
The Co-Parent Way
The Divorce Coaching Academy and the Divorce Doctor
The Divorce Surgery
The Family Mediation Trust
The Law Society of England and Wales
The Starting Point Centre
The University of Manchester
The Worcester Family Mediation Practice
Tonbridge Child Contact Centre
Trauma Stop UK CIC Ltd
Two Wishes Foundation
University of Bristol
University of Warwick
Wales Safer Communities Network
WeCare Mediation
Wells Family Mediation
Welsh Womens Aid
Westwood House Child Contact Centre
Wilson Solicitors LLP

[Please don't delete the section break beneath this text.]

[leave blank – inside back cover]



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i [sponsoring division telephone number and/or email address].